Llywodraeth Cymru
Welsh Government

WCVA
CGGC

GRYMUSO CYMUNEDAU YNG NGHYD-DESTUN BREXIT: CANFYDDIADAU YMCHWIL, DADANSODDIAD AC ARGYMHELLION I GYNORTHWYO MUDIADAU TRYDYDD SECTOR YNG NGHYMRU

Mehefin 2019

Resources FOR CHANGE

Resources for Change Ltd
Cyfarwyddwyr: A Davies, C Thomas, E Cranidge, M King
Rhif TAW: 996 4504 72. Rhif y Cwmni 7310220.
Cyfeiriad Cofrestredig: Cwrt Isaf Farmhouse, Llangatwg, Crucywel, Powys NP8 1PH.

CYNNWYS

1 CYFLWYNIAD 3

1.1 DIBEN YR YMCHWIL 3
1.1.1 CYFYNGIADAU 3
1.2 METHODOLEG 4
1.2.1 PWYSLAIS YR YMCHWIL 4
1.2.2 Y DULL YMCHWILIO 4
1.3 GOSOD CYD-DESTUN CYLLID YR UE YNG NGHYMRU 5
1.3.1 CYLLID YR UE YNG NGHYMRU 5
1.3.2 CRONFEYDD STRWYTHUROL A BUDDSODDI EWROPEAIDD (ESIF) i'R TRYDYDD SECTOR 8

2 CANFYDDIADAU 10

2.1 EFFEITHIAU I GYMUNEDAU 10
2.1.1 TROSOLWG 10
2.1.2 MWY O RANIADAU, LLAI O ODDEFGARWCH 11
2.1.3 CYNNYDD MEWN TLODI 13
2.1.4 PoBLOGAETH 13
2.1.5 GWIRFODDOLI 14
2.1.6 Y GWASANAETHAU CYMUNEDOL MWYAF HANFODOL A'R MWYAF AGORED I NIWED 14
2.1.7 DIMENSIWN Cymreig UNIGRYW? 15
2.1.8 CYSYLLTIAD Â CHYFLWR YR economI 16
2.2 EFFAITH AR ARGAELEDD GWASANAETHAU 16
2.3 EFFAITH COLLI CYLLID YR UE AR HYFYWEDD ARIANNOL MUDIADAU TRYDYDD SECTOR 19
2.4 EFFAITH AR WEITHLU MUDIADAU TRYDYDD SECTOR 21
2.4.1 GWLADOLION YR UE YN Y GWEITHLU'n GYFFREDINOL 21
2.4.2 GWLADOLION YR UE YNG NGWEITHLU'R TRYDYDD SECTOR 23
2.4.3 EFFEITHIAU A RAGWELIR AR Y GWITHLU 24
2.5 AMSERU EFFAITH 25
2.6 EFFEITHIAU A CHYFLEOEDD POSITIF POSIBL 27
2.7 CEFNOGI 'GOFYNION' 28

3 DADANSODDIAD 32

4 ARGYMHELLION AR GYFER CYMORTH I'R TRYDYDD SECTOR 35

5 Y GAIR OLAF 38

6 ATODIADAU 40

6.1 Y RHAI A GYFRANNODD AT YR YMCHWIL 40

Hoffem ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at yr ymchwil hwn, yn ogystal ag aelodau'r grŵp llywio sydd wedi helpu i arwain y gwaith.

1 CYFLWYNIAD

Mae'r adroddiad hwn yn disgrifio canfyddiadau, dadansoddiad ac argymhellion ymchwil a gomisiynwyd gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA), gan ddefnyddio cyllid a sicrhawyd o'r Gronfa Drosiannol Ewropeaidd, i ganfod sut y gallai proses Brexit effeithio ar wasanaethau cymunedol yng Nghymru ac i helpu'r trydydd sector i wneud cynlluniau addas.

Dechreuodd Resources for Change (R4C) ar y gwaith ym mis Mawrth 2019, gan gasglu data tan ganol Mai 2019.

Cafodd tîm R4C ei gynorthwyo gan Grŵp Llywio a oedd yn cynnwys WCVA, Llywodraeth Cymru (Uned y Trydydd Sector, Pontio'r UE WEFO), Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC), Canolfan Cydweithredol Cymru, Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro (PAVS).

1.1 DIBEN YR YMCHWIL

Diben gyffredinol yr ymchwil hwn oedd gosod y seiliau i lywio llunwyr polisïau ynghylch yr hyn sydd angen ei wneud i gynorthwyo'r sector cymunedol yng Nghymru yn sgil effeithiau Brexit. Y bwriad oedd y byddai'r ymchwil yn cynnig tystiolaeth a chyfeiriad, a hynny'n seiliedig ar ddarlun mor gyflawn a chadarn â phosibl.

Gwelwyd yr angen am y gwaith yn wreiddiol gan Lywodraeth Cymru a WCVA, er mwyn deall sut y gall y sector helpu cymunedau i'w grymuso'u hunain yn well, i gael eu cynnwys, i fod yn ffyniannus a chydnerth mewn cyd-destun lle mae gwasanaethau cymunedol (sy'n hanfodol i alluogi grymuso a chydnerthedd) eisoes o dan bwysau ond a allai fod o dan fwy byth o bwysau o ganlyniad i Brexit, a lle gwelir mai'r cymunedau a oedd wedi tueddu i bleidleisio o blaid Brexit yw'r rhai sydd fwyaf agored i brofi effeithiau proses Brexit. Roedd pryderon hefyd am fod pwyslais y drafodaeth hyd yma ar effaith Brexit wedi tueddu i ganolbwyntio ar effeithiau economaidd, er bod materion eraill sydd wedi cael llai o sylw – ond sydd serch hynny'n arwyddocaol iawn i gymunedau a chymdeithas.

Yn ogystal â helpu i oleuo Llywodraeth Cymru ynglŷn â pha gymorth sydd ei angen, y bwriad oedd y byddai'r ymchwil yn gweithredu fel sail i dystiolaeth ac opsiynau y gallai WCVA eu defnyddio wrth ystyried gwneud cais am gyllid ychwanegol i Gronfa Drosiannol yr UE y flwyddyn nesaf i dreialu syniadau newydd ar gyfer help pellach i'r sector yn gysylltiedig ag effeithiau Brexit.

1.1.1 CYFYNGIADAU

Roedd rhai cyfyngiadau ynghlwm wrth y gwaith, a ddigwyddodd o fewn amserlen dynn iawn, rhwng 12 Mawrth a 24 Mai, pan gafodd y drafft cyntaf ei gynhyrchu. Roedd hyn yn golygu:

- Bod y gallu i gyrraedd rhannau o'r trydydd sector wedi'i gyfyngu gan yr amser a'r adnoddau a oedd ar gael ar gyfer yr ymchwil
- Roedd yr adolygiad data meintiol yn cynhyrchu gwybodaeth fwy cyfyngedig nag y byddem wedi'i ddymuno ond mae'n rhoi rhyw syniad sylfaenol, ond er hynny mae diffyg rhai setiau data a all fod yn rhai pwysig.
- Roedd ymatebwyr yn cael anhawster gwahaniaethu rhwng eu canfyddiadau o effaith Brexit ac effaith y cyni ariannol sy'n parhau
- Nid oedd modd cyfleu peryglon colli cyllid yr UE yn fanwl, gan nad oedd modd inni gael gafael ar ddata'n rhwydd ar lefel a natur dibyniaeth ar gyllid yr UE. Roedd hyn yng nghyd-destun mudiadau unigol, ardaloedd daearyddol (e.e. cymunedau gwledig) ac is-sectorau'r trydydd sector ehangach (e.e. llwybrau tymor hir i waith). Gellir ystyried ymchwilio pellach i hyn mewn unrhyw gamau nesaf.

Hefyd, gwnaed penderfyniad i drin gwybodaeth dybiannol fel gwybodaeth ddilys i ddiben yr ymchwil hwn, gan fod tybiaethau mudiadau'n debygol iawn o fod yn lliwio eu hymddygiad.

1.2 METHODOLEG

1.2.1 PWYSLAIS YR YMCHWIL

Cafodd yr ymchwil ei lunio i ganolbwyntio ar dair prif thema, sef effaith – positif a negyddol – y broses Brexit ar:

1. Argaeledd gwasanaethau cymunedol (anstatudol) i bobl a chymunedau
2. Hyfywedd ariannol y mudiadau sy'n darparu'r gwasanaethau hyn
3. Gweithlu'r mudiadau hyn

Fodd bynnag, cydnabyddir fod sefyllfa gyd-destunol ehangach, yn benodol effaith y broses Brexit ar gymdeithas a chymunedau eu hunain, ac mae'n bwysig ceisio gwahaniaethu rhwng effeithiau Brexit yn benodol a'r ystyriaethau gweithredol mwy cyffredinol sy'n gysylltiedig â'r cyni mae mudiadau trydydd sector yn ei wynebu. Bu'r ymchwil yn edrych hefyd a oes dimensiwn sy'n unigryw i Gymru.

1.2.2 Y DULL YMCHWILIO

Nod y dull ymchwilio oedd casglu gwybodaeth sylfaenol ac eilaidd, gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau, ac sydd wedi'u crynhoi yma.

DULL	MANYLION
Gweithdai	3 digwyddiad Rhwydwaith Cefnogi'r Trydydd Sector – gyda chyfartaledd o 15 yn bresennol ym mhob un, yng Nghastell-nedd, y Barri a Llangefni. Gweithdy yng Ngofod 3 gydag 16 yn bresennol
Cyfweliadau	57 o gyfweliadau dros y ffôn, ynghyd â thrafodaethau gyda phob mudiad VCS a oedd yn arddangos yng Ngofod3, yn ogystal â chynrychiolwyr o gyrff statudol a chyhoeddus eraill. Cyfweliadau ffôn gyda chynrychiolwyr mudiadau trydydd sector mawr a chanolig, cyrff ymbarél, yn enwedig rhai sy'n cynrychioli eu sector ar y Cyngor Partneriaeth, rhai sy'n cael, ac nad ydynt yn cael, cyllid gan yr UE i ddarparu gwasanaethau; sefydliadau seilwaith y trydydd sector; cyrff sector cyhoeddus; Llywodraeth Cymru.
Arolwg ar-lein	Dosbarthwyd drwy WCVA, aelodau'r grŵp llywio, a chyfweleion. Fe'u hanfonwyd at bawb sy'n cael cyllid yr UE o dan y Gronfa Cynhwysiant Gweithredol, ac yn fwy eang drwy rwydwaith ehangach CGS/CVS Cafwyd cyfanswm o 62 o ymatebion (56 yn Saesneg, 6 yn Gymraeg). Noder: nid oedd pob un o'r ymatebwyr wedi ateb pob cwestiwn yn yr arolwg
Adolygiad o ddata Meintiol	Pwyslais ar y gweithlu a chyllid yr UE i'r sector. Gweler yr adolygiad Meintiol am fanylion llawn

Adolygiad llenyddiaeth	Adolygwyd 49 o ddogfennau a chyfeirir at 34.

Cyfrannodd cyfanswm o 127 o fudiadau trydydd sector, gan gynnwys cyrff ymbarél, rhai ohonynt drwy fwy nag un dull.

Nodwyd y byddai canfyddiadau'r ymchwil yn cael eu cyfyngu gan ba ddata oedd ar gael eisoes a'i ansawdd, a pha ddata ellid ei gasglu yn ystod yr amser oedd ar gael i'r ymchwil. Hefyd, roedd yn debygol y byddai gwybodaeth a gasglwyd yn cynnwys data ffeithiol a thybiaethau.

1.3 GOSOD CYD-DESTUN CYLLID YR UE YNG NGHYMRU

Mae cyd-destun cyllid yr UE i'r trydydd sector yng Nghymru'n gymhleth. Byddai colli cyllid yr UE i'r sector yn sioc amlwg, ac er bod cydnabyddiaeth gyffredinol nad dyna ffynhonnell cyfran fwyaf o'r cyllid i'r sector, byddai'r effaith ar rai sectorau a rhai ardaloedd daearyddol yn anghymesur. Mae cyllid yr UE yn fwy arwyddocaol mewn rhai is-sectorau (e.e. llwybrau tymor hir i waith) a rhai ardaloedd daearyddol (e.e. cymunedau gwledig), ac mae'n ffynhonnell bwysig i ddod â chyllid ychwanegol i'r ardaloedd hynny.

Oherwydd eu hunion natur nod cronfeydd strwythurol yng Nghymru yw helpu'r cymunedau mwyaf difreintiedig, ac mae hyn yn golygu y bydd diddymu/lleihau unrhyw gyllid yn cael effaith anghymesur ar y cymunedau hyn. Er bod peth o'r cyllid mae'r sector yn ei gael yn fychan, er hynny mae'n bwysig dros ben i'r cymunedau hynny. Mae 80% o gyllid yr UE i Gymru yn mynd i ardal pymtheg o Awdurdodau Lleol yn rhanbarth gyllido Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yr UE, gyda'r gweddill yn mynd i ardal y 7 Awdurdod Lleol arall.

Mae cymysgedd eang o ddata ar gael i'w ddefnyddio i greu darlun o natur, graddfa a chwmpas cyllid yr UE yng Nghymru. Nid oes un ffynhonnell data ar gael; mewn rhai achosion, mae gwahanol ffynonellau data'n rhoi gwybodaeth sy'n croesddweud ei gilydd, ac nid oedd bob amser yn bosibl i ddod o hyd i setiau data cymaradwy ar gyfer un cyfnod o amser neu i ddod o hyd i ddata ar gyfer y cyfnod cyllido diweddaraf. Felly, mae'r adran hon yn ceisio crynhoi gwybodaeth gyd-destunol berthnasol, sy'n cynnwys dangos rhai o'r ystyriaethau sy'n gysylltiedig â'r wybodaeth honno.

1.3.1 CYLLID YR UE YNG NGHYMRU

Fel rhan o'r DU, mae Cymru'n cyfrannu at yr UER, ond mae budd net i'r wlad:

> *"Cyfrannodd Cymru £414 miliwn i'r UE ond cafodd £658 miliwn yn ôl mewn cyllid. Felly, roedd y budd net i Gymru tua £79 y pen yn 2014."*[1]

Yn y cyfnod 2014 - 2020, mae'r genedl yn cael dwywaith yn fwy o arian y pen nag unrhyw ranbarth arall o'r DU, ac mae hynny ar hyn o bryd tua £800 y pen[2], gyda'r ail swm uchaf y pen yng Ngogledd Iwerddon, gyda thua £350 y pen.

Gyda rhai ffrydiau cyllido ar gyfer amrywiaeth o bethau o'r celfyddydau i fioamrywiaeth, dywed Wales Online fod y wlad ar hyn o bryd yn cael £680 miliwn o gyllid yr UE bob blwyddyn, wedi'i rannu rhwng tri

[1] Canolfan Llywodraethiant Prifysgol Caerdydd: "Wales and the EU Referendum: Estimating Wales' Net Contribution to the European Union": https://www.cardiff.ac.uk/news/view/327490-wales-net-benefit-from-the-eu-budget-estimated-at-around-79-per-head

[2] National Assembly for Wales / Sheffield Political Economy Research Institute

chategori cyffredinol[3]. Mae'r cyllid, heblaw am RDP, angen arian cyfatebol cyhoeddus a/neu breifat ac mae wedi'i rannu fel a ganlyn:

1. Cronfeydd strwythurol Ewropeaidd – sy'n ariannu pethau fel gwelliannau i ganol trefi, hyfforddiant a helpu pobl i waith, ac mae'n werth tua £330 miliwn y flwyddyn. Mae cyllid yn cael ei rannu rhwng Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) a Chronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF).
2. Y Polisi Amaethyddol Cyffredinol, sy'n cyfrannu £200m.
3. Cronfeydd eraill e.e. bioamrywiaeth a'r celfyddydau drwy LIFE, Creative Europe, Horizon, ac sy'n werth tua £150m y flwyddyn.

Dengys yr un erthygl fod Cymru wedi cael tua £5 biliwn mewn cyllid strwythurol ers 2000:



Hefyd, dengys dadansoddiad Llywodraeth Cymru effeithiau canlynol prosiectau'r UE ers 2007:

- Wedi helpu 229,110 o bobl i gael cymwysterau
- Wedi helpu 72,700 o bobl i waith
- Wedi creu 36,970 (gros) o swyddi a 11,925 o fentrau

Mae ymchwil WCVA yn disgrifio tair cronfa berthnasol[4]:

1. Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF)
2. Chronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF)
3. Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig, sy'n ymgorffori LEADER.

Yn hytrach nag adrodd yn fanwl ar y gwahaniaethau rhwng y gwahanol gronfeydd yma, mae'n fwy buddiol i weld beth yw'r effaith ar fudiadau trydydd sector. Mae'r un papur gan WCVA yn disgrifio'r canlynol am y cyfnod 2007 hyd 2013:

> *"Mae mudiadau trydydd sector wedi ymgysylltu â Chronfeydd Strwythurol Ewrop 2007-2013 fel:*
>
> - *noddwyr arweiniol prosiectau, hynny yw, ymgeiswyr uniongyrchol i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO)*

[3] https://www.walesonline.co.uk/news/politics/how-much-money-wales-gets-12765100

[4] Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd 2014-2020: https://www.wcva.org.uk/media/4587382/01_overview_of_esi_funds_2014-2020_c.pdf

- *cyd-noddwyr ac asiantau cyflenwi contractau:*
    - *Mae £98m o gyllid yr UE wedi'i roi i 45 o brosiectau dan arweiniad y trydydd sector*
    - *Mae tua £63.5m mewn grantiau/contractau gan yr UE wedi'i ddyrannu i fudiadau trydydd sector drwy brosiectau dan arweiniad y sector cyhoeddus*
    - *Mae gwerth tua £140.5m o gontractau wedi'u dyfarnu i 421 o fudiadau trydydd sector." [Golygwyd]*

Mae'r papur yn egluro y bydd *"Rhannau o Gymru yn cymhwyso am gyllid hefyd drwy'r Cynllun Datblygu Gwledig a'r Gronfa Pysgodfeydd"* ond nid yw'n rhoi mwy o fanylion.

Gyda nawdd cyfatebol, mae £3.2bn o gronfeydd yn cael eu dyrannu i'w gwario yn y cyfnod 2014 – 2020, mewn dau 'ranbarth' cyllido'[5] – Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, a Dwyrain Cymru:



Map gan Lywodraeth Cymru / cyhoeddiad WEFO

Heb y nawdd cyfatebol, mae cyllid yr UE am y cyfnod 2014 - 2020 yn £2.069bn, ac mae wedi'i rannu fel y dangosir yma.

[5] Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd, WEFO: https://gweddill.gov.wales/funding/eu-funds/2014-2020/?skip=1&lang=cy



Mae pymtheg ardal Awdurdod Lleol yn elwa ar 80% o gyllid yr UE i Gymru o fewn rhanbarth gyllido Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, gyda'r 7 ardal Awdurdod lleol arall yn elwa ar y gweddill.

1.3.2 CRONFEYDD STRWYTHUROL A BUDDSODDI EWROPEAIDD (ESIF) I'R TRYDYDD SECTOR

Daw cyllid yr UE sy'n llifo yn y diwedd i fudiadau trydydd sector o dan ymbarél Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd, wedi'i rhannu'n dair cronfa sy'n berthnasol i'r astudiaeth hon:

1. Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF)
2. Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF)
3. Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig, sy'n ymgorffori LEADER

Dangosir y manylion am sut mae hyn yn cael ei rannu yn yr Adolygiad Data Meintiol sy'n atodiad i'r ddogfen hon.

1.3.2.1 CYLLID ESF AC ERDF

Cyfran fechan o fudiadau, yn ôl nifer, sy'n elwa ar gyllid yr UE drwy'r cynlluniau hyn yn y trydydd sector yn ei gyfanrwydd yng Nghymru. Yn 2016, nododd WCVA tua 32,300 o fudiadau gweithredol, gyda 421 ohonynt yn cael cyllid yr UE yn uniongyrchol[6]. Mae rhestr ddiweddaraf WEFO o brosiectau a gymeradwywyd yn dangos bod cyfanswm o £80.84m wedi'i ddyfarnu i 7 ERDF a 17 ESF o brosiectau sy'n cael eu harwain gan y trydydd sector, a oedd yn rhedeg rhwng 2015 a 2022; gyda nawdd cyfatebol; mae hyn yn werth cyfanswm o £116.53m. Mae'r prosiectau hyn yn cynnwys gwaith mewn nifer o feysydd blaenoriaeth: trechu tlodi drwy gyflogaeth gynaliadwy; sgiliau ar gyfer twf; cyflogaeth a chyrhaeddiad ieuenctid; ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd ynni; cystadleurwydd busnesau bach a chanolig; cymorth technegol. Noder: mae'r rhain yn cynnwys cyllid i sefydliadau sy'n cael eu disgrifio fel mudiadau trydydd sector, ond gan eu bod yn gyrff fel Ymddiriedolaethau Datblygu, bydd rhai o'r cronfeydd hyn yn

[6] Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd 2014-2020: https://www.wcva.org.uk/media/4587382/01_overview_of_esi_funds_2014-2020_c.pdf

cael eu gwario ar weithgarwch nad ydynt yn gysylltiedig â'r trydydd sector, fel gwneud busnesau bach yn gystadleuol.

1.3.2.2 CRONFA AMAETHYDDOL EWROP AR GYFER DATBLYGU GWLEDIG (EAFRD) – CYLLID LEADER

Bu'n anodd ceisio canfod faint o gyllid yr UE sy'n cael ei ddyrannu i fudiadau trydydd sector sy'n gwasanaethu cymunedau gwledig, gan fod pob awdurdod derbyn yn rhedeg ac yn rheoli eu rhaglen LEADER mewn ffordd wahanol, tra'n cadw o fewn cyfyngiadau cyffredinol rheolau'r UE. Mae LEADER yn cael ei gyflwyno fel rhan o gyllid Cynllun Datblygu Gwledig (RDP) ond yna fel cronfa ar wahân, yn ddibynnol ar y sawl sy'n cael ei holi a'u persbectif sefydliadol. Er bod y cyllid wedi'i frandio fel cyllid RDP yr UE ar lefel sirol, mae'n cael ei ddisgrifio'n aml o dan yn y teitl LEADER gan y derbynwyr, ac mae rhai o dan yr argraff ei fod yn dod o'r Awdurdod Lleol, er ei fod yn gyllid yr UE.

Mae taflen ffeithiau gan yr UE[7] ar RDP yn egluro bod tua £862 miliwn ar gyfer y cyfnod saith mlynedd rhwng 2014 a 2020, gyda £574 miliwn yn dod o'r UE (mae hyn yn cynnwys cronfeydd wedi'u trosglwyddo o daliadau uniongyrchol CAP) a £286 miliwn o gyd-gyllido cenedlaethol (y DU). Mae hyn wedi'i rannu ar draws chwe blaenoriaeth, a blaenoriaeth chwech – cynhwysiant cymdeithasol a datblygu lleol mewn ardaloedd gwledig – yw'r mwyaf perthnasol i'r astudiaeth hon. Mae gwariant LEADER yn cael ei gyfarwyddo gan 'Strategaethau Datblygu Lleol' sy'n cael eu gweithredu gan 18 o Grwpiau Gweithredu Lleol (LAG). Ni chanfuwyd dim dadansoddiadau manwl o sut mae'r 18 LAG yn gwario eu dyraniadau LEADER ar flaenoriaeth chwech ac nid oes cofnodion canolog ar gael. Bydd yn rhaid cysylltu â phob LAG yn ei dro i ganfod pa arian sy'n mynd i ba fudiad trydydd sector ac ym mhle.

Mae rhagor o fanylion am ein hamcangyfrifon ar lefel y cyllid sy'n cyrraedd y trydydd sector o'r ffynhonnell hon i'w cael yn ein dogfen Adolygu Data Ansoddol, fel atodiad i'r adroddiad hwn.

1.3.2.3 I BLE MAE'R ARIAN YN MYND I'R TRYDYDD SECTOR

Nid oedd modd canfod yn hawdd pa rannau o'r trydydd sector sy'n elwa, yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol ar gyllid yr UE. Mae'n ymddangos bod llawer o fudiadau sy'n cael cronfeydd yr UE yn helpu, a hynny'n aml ar lefel un i un, unigolion sydd wedi wynebu heriau sylweddol yn eu bywydau; i symud ymlaen i fod yn llai dibynnol ar wasanaethau cyhoeddus, ac i fod yn fwy hunan ddibynnol. Mae'r rhain yn cynnwys help i bobl ifanc, pobl hŷn a di-waith; pobl â salwch neu anabledd, gan gynnwys iechyd meddwl a rhai sydd â phroblemau gyda dibyniaeth ar gyffuriau a/neu alcohol. Heb y cymorth hwn, gallai llawer o unigolion fod wedi'u dal mewn sefyllfaoedd anodd, a dywedodd mudiadau fod ganddynt dystiolaeth o ddirywiad yn iechyd a llesiant yr unigolion hynny pan fo cyllid yn cael ei dynnu'n ôl, a'u bod yn aml yn dychwelyd i'w patrymau ymddygiad blaenorol, a oedd yn gallu bod yn niweidiol i'r unigolion, ac i gymdeithas yn gyffredinol. Enghraifft o hyn fyddai unigolion sydd wedi llwyddo i gwblhau cwrs i beidio â bod yn ddibynnol ar gyffuriau neu alcohol, ond heb y math o gymorth *ychwanegol* sy'n cael ei ddarparu gan fudiadau trydydd sector sy'n defnyddio cronfeydd yr UE, a fyddai'n ei chael yn anodd cael gwaith neu'r hyfforddiant, a fyddai'n rhoi iddynt y strwythur yn eu bywydau sy'n eu galluogi i barhau heb gyffuriau neu alcohol. Byddai ymchwil pellach yn canfod a oes unrhyw sector penodol sydd mewn mwy o risg o golli cyllid ar ôl Brexit.

Hefyd, mae symiau llai o arian, e.e. drwy LEADER, yn darparu cymorth ar lefel gymunedol, er enghraifft drwy helpu i sicrhau cynaliadwyedd canolfannau cymunedol gwledig. Unwaith eto, oherwydd prinder

[7] Factsheet on 2014-2020 Rural Development Programme for Wales (United Kingdom) (no publication date): https://ec.europa.eu/agriculture/sites/agriculture/files/rural-development-2014-2020/country-files/uk/factsheet-wales_en.pdf

gwybodaeth fanwl nid oes modd rhagweld, er enghraifft, a oes rhai ardaloedd daearyddol sy'n wynebu mwy o risg nag eraill.

2 CANFYDDIADAU

Mae'r adran hon yn cyflwyno canfyddiadau'r ymchwil sylfaenol ac eilaidd; cyflwynir sylwebaeth ddadansoddol yn Adran 3.

2.1 EFFEITHIAU I GYMUNEDAU

Mae'r adran hon yn adrodd ar ymatebion sy'n ymwneud â sut mae proses Brexit yn effeithio eisoes ar gymunedau, neu sut y gallai effeithio arnynt yn y dyfodol, gyda phwyslais ar effeithiau cymdeithasol a chymunedol, yn hytrach nag effeithiau economaidd, gan edrych ar effeithiau positif yn ogystal â negyddol.

2.1.1 TROSOLWG

Dangosodd Ciparolwg 2019 WCVA fod *'Mwyafrif o ymatebwyr (83%) yn pryderu ynghylch rhagolygon eu buddiolwyr yn y dyfodol, gyda thros hanner yn dweud eu bod yn 'bryderus iawn'.'* Yn yr un modd, canfu'r Foundation for Social Improvement (FSI) fod dros hanner (54%) eu haelodau yn credu y byddai Brexit yn cael effaith negyddol ar eu buddiolwyr, o'i gymharu â dau y cant a oedd yn credu y byddai'r effaith yn bositif[8]. Mae ymchwil arall, fodd bynnag, wedi dangos llai o bryder ynghylch yr effaith bosibl ar wasanaethau.

Nid yw'n debygol y bydd yr effaith hon i'w theimlo yn yr un ffordd ledled Cymru, gyda llawer o dystiolaeth yn y llenyddiaeth yn disgrifio ofnau mai'r mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas fydd yn cael eu heffeithio fwyaf. Yn eu hastudiaeth o ganfyddiadau awdurdodau lleol o Brexit yng Nghymru, dywed Grant Thornton (2019) fod *'any post-Brexit issues are most likely to disproportionately impact upon the most vulnerable in society'* (t.7). Yn yr un modd, mae astudiaeth Uned Gymorth Asesu'r Effaith ar Iechyd Cymru i oblygiadau Brexit ar iechyd cyhoeddus yng Nghymru yn nodi bod pobl ar incwm isel, yn enwedig pobl sy'n byw mewn tlodi bwyd a thanwydd, yn arbennig o debygol o brofi effeithiau negyddol o ganlyniad i fod â *'llai o gadernid o ran effeithiau economaidd fel cynnydd mewn prisiau, gostyngiad mewn cyflogau gwirioneddol, llai o gyflogaeth, a llai o fynediad ac ansicrwydd ynghylch disodli cyllid rhanbarthol yr UE'* [9].

Mae Llywodraeth Cymru'n mynegi pryderon tebyg yn ei dadansoddiad o ystod o senarios Brexit posibl, gan nodi 'heb gymorth oddi wrth Lywodraeth Cymru yn ystod y cyfnod pontio, gall sectorau penodol fynd i'r gwellt yn gyflym ar adegau o newid mawr a gall hynny arwain at ganlyniadau ehangach o ran iechyd a llesiant ein cymunedau', gan nodi hefyd y tebygrwydd y bydd prisiau bwyd yn codi.

Cafodd yr ymdeimlad hwn o bryderu am y mwyaf agored i niwed ei adleisio gan ymatebwyr a oedd yn cyfrannu at yr ymchwil drwy gyfweliadau, gweithdai a'r arolwg ar-lein, gyda sylwadau fel,

> "*Os bydd rhagor o gyni, neu golli swyddi, yna bydd pethau'n mynd yn fwy anodd i'r bobl dlotaf. Rydym eisoes yn gweld cynnydd mewn trais domestig sy'n cael ei gysylltu â chyni, a gall hyn gynyddu.*"

[8] Broomhead et al, 2017
[9] Green et al, 2019

Gall fod yn anodd priodoli newidiadau a welir mewn cymunedau'n uniongyrchol i broses Brexit, a chafwyd sylw ar hyn gan nifer o ymatebwyr.

> "*Mae'n anodd priodoli unrhyw beth i Brexit. Rydym wedi gweld cynnydd sylweddol yn nifer y ceisiadau* [i'w rhaglen grantiau]….. *ond nid ydym yn siŵr o'r rheswm*".

Hefyd, nododd rhai ymatebwyr nad oedd llawer o sôn am Brexit yn eu mudiad nac ymhlith eu buddiolwyr.

> "*I lawer o bobl, mae'n rhywbeth sy'n digwydd 'draw yn y fan acw'n rhywle'".*

2.1.2 MWY O RANIADAU, LLAI O ODDEFGARWCH

Roedd hon yn thema a oedd yn codi droeon yn yr ymchwil, ac roedd yn amlwg iawn yn y gweithdai ac mewn rhai o'r cyfweliadau, gyda rhagor o sylwadau wedi'u nodi drwy'r adolygiad llenyddiaeth.

Dywed Grant Thornton (2019) fod *'local authorities in Wales have seen Brexit place strain on existing tensions within communities. In some areas of Wales there has been an increase in far right-wing activity'*. Er bod tystiolaeth o gynnydd mewn troseddau casineb yn y cyfnod yn syth ar ôl y refferendwm[10], mae hefyd yn bosibl bod y ddadl ynglŷn â Brexit wedi bod yn gatalydd yn hytrach na'r achos i'r ymddygiadau hyn, gyda'r Lloyds Bank Foundation (2017) yn nodi bod *'Brexit has been blamed for opening a Pandora's box of social division. In truth, these social divisions in the UK are long-standing and deep-rooted'*.

Mynegodd ymatebwyr bryder am gynnydd mewn hiliaeth, gan gynnwys defnydd o dermau ac agweddau difrïol, a oedd yn cynnwys rhai'n deillio o brofiadau personol. Mae'r sylwadau isod yn rhoi syniad o lawer o rai eraill.

> "*Mae wedi mynd â ni'n ôl i gyfnod tywyllach o ran agweddau at hil.*"

> "*Mae agweddau pobl wedi caledu ac maent yn teimlo y gallant ddweud a gwneud beth bynnag y mynnont yn dilyn y bleidlais….Mae agweddau wedi caledu ac mae sylwadau ar gyfryngau cymdeithasol yn atgyfnerthu safbwyntiau grŵp".*

> *"Mae Brexit wedi achosi tensiynau mewn cymunedau, ac mae'r sgwrs a thôn y drafodaeth, yn enwedig yn y cyfryngau ac ar gyfryngau cymdeithasol wedi meithrin agwedd 'hyll' rhwng pobl, gan arwain at ymddygiad sy'n cynnwys bwlio a rhagfarnau. Agwedd o 'ni yn eu herbyn nhw,' ac mae'r ymddygiad negyddol hwnnw'n annerbyniol".*

Mewn gwirionedd, roedd y dystiolaeth y gellid ei chael gan ymatebwyr a oedd yn ymwneud â chydlyniant cymdeithasol neu ddigwyddiadau rhanedig yn gyfyngedig, e.e. posteri sarhaus yn fwy amlwg yng Nghastell-nedd Port Talbot; roedd sylwadau ymatebwyr yn dueddol o ganolbwyntio ar eu canfyddiadau o gynnydd yn y niferoedd a'u pryderon y byddai'n cynyddu, ond nid oeddent yn cael eu cadarnhau'n aml.

Nododd heddluoedd ledled y DU gynnydd sydyn mewn troseddau casineb yn dilyn y refferendwm yn 2016[11], ac mae heddluoedd yng Nghymru wedi gweld cynnydd cyfatebol ers y dyddiad hwnnw. Mae data ar droseddau casineb ledled Cymru a gafwyd gan y tîm ymchwil o fewn yr amser oedd ar gael yn dameidiog, ond nododd un ymatebwr gynnydd ym mhob math o droseddau casineb yn ardal ganolog Heddlu De Cymru. Mae data o'r ddwy flynedd ddiwethaf a gyfrannwyd at yr ymchwil hwn (ar lafar) gan Heddlu Gogledd Cymru hefyd yn dangos cynnydd – gweler y tabl drosodd. Fodd bynnag, dywedodd eu llefarydd y gall sawl rheswm fod wedi cyfrannu at hynny yn ogystal â'r refferendwm ar ymadael â'r UE,

[10] Divine, 2018
[11] O'Keefe, A,, Home Office Statistical Bulletin 17/17, Hate Crime in England and Wales 2016/17

gan gynnwys cofnodi gwell gan yr heddlu, mwy o hyder ym mharodrwydd a gallu'r heddlu i weithredu, anogaeth gan yr heddlu ac asiantaethau i roi gwybod am droseddau o'r fath, ynghyd ag effeithiau cyni.

Math	2017/18	2018/19	% o gynnydd
Cyfanswm	672	849	26.5
Hil*	449	547	21.8
Crefydd	17	30	76.4
Cyfeiriadedd Rhywiol	135	164	21.4
Anabledd	52	87	67.3

*Yn cynnwys mewnfudwyr o'r UE.

Mae pryder bod proses Brexit wedi creu rhaniadau mewn cymunedau, a theuluoedd hyd yn oed, a bydd angen ymdrech fawr a llawer o flynyddoedd i'w cau. Mae ymatebwyr o'r farn bod rôl i'r trydydd sector yma:

> *"Mae angen inni ymdrechu i wrthweithio rhwygiadau a rhaniadau, a rôl y sector fydd bod yn llais ynglŷn â phwysigrwydd hyn".*

> "Mae *Brexit wedi polareiddio cymdeithas ac mae rhywun yn disgwyl y bydd rôl i'r trydydd sector yn yr ymdrechion i geisio lleddfu tensiynau a mynd i'r afael â'r materion hyn".*

Dangosodd yr arolwg ar-lein mai'r effaith a welwyd amlaf hyd yma mewn cymunedau, sy'n cael ei phriodoli i broses Brexit gan ymatebwyr i'r arolwg, oedd yr 'awyrgylch negyddol cyffredinol', wedi'i ddilyn gan 'fwy o ddefnydd o iaith amhriodol tuag at bobl eraill'.



2.1.3 CYNNYDD MEWN TLODI

Mae sylwebaeth yn yr adolygiad llenyddiaeth, yn ogystal ag ymatebion gan gyfweleion, wedi dyfalu y byddai Brexit yn arwain at gynnydd mewn tlodi i unigolion a theuluoedd o ganlyniad i'r dirywiad economaidd disgwyliedig. Fel y dywedodd un cyfwelai:

> *"Effeithiau economaidd fydd effaith fwyaf Brexit, a bydd yn treiddio drwy gymdeithas gyda chynnydd mewn tlodi'n broblem benodol. Os bydd busnesau'n cau, bydd swyddi'n cael eu colli, bydd incwm aelwydydd yn gostwng, gan arwain at dlodi."*

Cafodd sylwadau tebyg eu crybwyll yn y llenyddiaeth:

> *'Cafodd pryderon eu mynegi hefyd am ansefydlogrwydd economaidd posibl a fyddai'n achosi caledi ychwanegol i grwpiau mewn cymdeithas sydd eisoes yn ei chael yn anodd.*[12]
>
> *'Dylai elusennau felly baratoi ar gyfer parhad yn y ddibyniaeth ar y cymorth maent yn ei ddarparu wrth i rai buddiolwyr ymdrechu i gael dau ben llinyn ynghyd mewn amgylchiadau economaidd anodd*[13]*.'*
>
> *'Dywedodd cynghorau y gallai amharu ar gyflenwadau bwyd arwain at gynnydd yn nifer y bobl sydd angen defnyddio banciau bwyd ac y byddai hefyd yn arwain at ostyngiad mewn cyfraniadau mewn archfarchnadoedd (cyfranwyr pwysig at fanciau bwyd) os bydd problemau â'r cyflenwadau*[14]*.'*

Roedd pryder penodol ynglŷn ag effeithiau ar gymunedau gwledig ledled Cymru, a grisialwyd mewn dyfyniad gan CLILC, "*Mae pryderon ynglŷn â chymorth i ddatblygu ar ôl Brexit, gan y gallai llawer o gymunedau brofi anhawster i gynnal gwasanaethau hebddo, gan arwain at gylch dieflig o ddiboblogi a dirywiad mewn darpariaeth gwasanaethau*".

Gan fod y rhan fwyaf yn rhagweld dirywiad economaidd yn dilyn Brexit, mae rhai ardaloedd yn debygol o gael eu heffeithio'n waeth. Mae'r rhain yn cynnwys ardaloedd gwledig, yn enwedig rhai â dibyniaeth sylweddol ar ffermio defaid mynydd; ac yn fwy cyffredinol, gan ostyngiad yng ngwerth y bunt a fydd yn ei gwneud yn ddrutach i fewnforio nwyddau, a chynnydd mewn diweithdra (nododd ymatebwyr gysylltiad hysbys rhwng pwysau economaidd ar deuluoedd a thrais domestig); gwasgfa ar y trysorlys wrth i daliadau budd-dal gynyddu a refeniw trethiant ostwng, gan arwain at bwysau ychwanegol ar wariant cyhoeddus, a fydd yn ei dro yn effeithio ar allu llywodraeth leol a chanolog i leddfu tlodi.

2.1.4 POBLOGAETH

Ni ragwelir effaith arwyddocaol o ran maint y boblogaeth yng Nghymru yn ei chyfanrwydd, gan fod cyfran preswylwyr yr UE yn gymharol fychan. Amcangyfrifir fod 82,000 o wladolion yr UE yn byw yng Nghymru ym Mehefin 2018, allan o amcangyfrif o 3.125 miliwn[15], sy'n golygu bod canran gwladolion yr UE yn cyfrif am 2.6% o boblogaeth Cymru. O bob rhan o'r DU, Cymru sydd â'r gyfran ail isaf o'i phoblogaeth sydd wedi'u geni dramor, sef 6.3%[16].

[12] ACEVO, 2016
[13] Birtwistle et al, 2019
[14] Grant Thornton, 2019

[15] Amcangyfrif y Swyddfa Ystadegau Gwladol o boblogaeth Cymru (https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationestimates/timeseries/wapop/pop)

[16] Papur Briffio Llyfrgell Tŷ'r Arglwyddi, Rhif SN06077, 11 Rhagfyr 2018

Fodd bynnag, nododd rai ymatebwyr y gallai effeithiau lleol fod yn bosibl lle'r oedd rhannau penodol o'r economi a oedd yn dueddol o gyflogi dinasyddion yr UE, e.e. gweithgynhyrchu a phrosesu cig yng ngogledd ddwyrain Cymru, adeiladu yn ne ddwyrain Cymru, lletygarwch ar hyd arfordir y Gogledd.

2.1.5 GWIRFODDOLI

Roedd gwahaniaeth barn ynglŷn a fyddai lefelau gwirfoddoli'n cael eu heffeithio.

Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y byddai gwirfoddoli'n dioddef, gan nodi nifer o resymau gan gynnwys agweddau mwy negyddol mewn cymunedau, pwysau ariannol personol, mwy o bwyslais gan bobl ar eu hunain yn ystod cyfnodau anodd, a phwysau teuluol. *"Mae eisoes yn gwneud i bobl beidio gwirfoddoli".* Ac roedd pryder hefyd am sgil effeithiau hyn i'r trydydd sector ac yn ehangach, "*Os ydych chi'n colli'r gwirfoddolwyr, yna rydych yn colli'r goleuni, y ffocws a'r gobaith o fewn cymunedau".*

Mae craffu at y data gwirfoddoli ar draws y DU a gedwir gan NCVO yn awgrymu bod lefelau gwirfoddoli wedi bod yn gyson yn ystod y 15 mlynedd diwethaf, er gwaethaf y newidiadau mewn amgylchiadau economaidd cenedlaethol a phersonol yn ystod y cyfnod hwnnw.

2.1.6 Y GWASANAETHAU CYMUNEDOL MWYAF HANFODOL A'R MWYAF AGORED I NIWED

Roedd un elfen o frîff yr ymchwil yn canolbwyntio ar wneud asesiad o'r gwasanaethau mwyaf hanfodol a'r rhai mwyaf agored i niwed o ran grymuso, cydlyniant, cydnerthedd a ffyniant cymunedau. Er bod hwn yn bwnc ymchwil sylweddol ynddo'i hun, roedd yr ymchwil hwn yn gyfle i glywed barn cyfweleion a chyfranogwyr mewn gweithdai ar y pwnc.

2.1.6.1 Y GWASANAETHAU CYMUNEDOL MWYAF HANFODOL

Mewn ymateb i gwestiwn ar ba wasanaethau roedd ymatebwyr yn feddwl oedd y mwyaf hanfodol o ran grymuso, cydlyniant, cydnerthedd a ffyniant cymunedau, roedd yr atebion mwyaf cyffredin yn cynnwys:

- Canolfannau cymunedol – gan gynnwys gofod ffisegol a hefyd y mudiadau a'r gwasanaethau hynny sy'n dod â phobl ynghyd neu sydd mewn rhyw fodd yn cysylltu pobl mewn cymuned; neu sy'n adnodd allweddol i gynorthwyo pobl i ddod o hyd i'r help sydd ei angen arnynt.
- Gwasanaethau paratoi pobl at waith, yn benodol rhai sy'n helpu pobl sy'n cychwyn gryn bellter o'r gweithle.
- Gwasanaethau cynghori, sy'n cynnwys ystod eang o bynciau fel tai, budd-daliadau, Statws Preswylydd Sefydlog ac ymholiadau cysylltiedig, hawliau ac ati.
- Gwasanaethau sy'n diogelu ac yn hybu hawliau dynol a chydraddoldeb pobl.
- Gwasanaethau cymorth i aelodau unigol o'r gymuned, e.e. gofal plant, sgiliau, cyngor ariannol, iechyd meddwl, tai.

Er bod gofal cymdeithasol yn cael ei enwi'n aml fel gwasanaeth a all fod mewn cryn risg oherwydd Brexit (gweler isod), nid oedd yn ymddangos ei fod yn flaenllaw ymhlith y rhai sy'n cael eu disgrifio fel rhai hanfodol, a hynny efallai am fod rhai ymatebwyr yn credu mai dyna oedd y gwasanaeth a oedd fwyaf tebygol o gael ei warchod gan gyrff statudol.

Cafodd banciau bwyd eu crybwyll yn aml, o ran darparu gwasanaeth y gallai fod galw cynyddol amdano mewn amgylchiadau lle gwelid cynnydd mewn tlodi.

Nodwyd hefyd mai angen am wasanaeth penodol yn gysylltiedig â Brexit oedd cymorth yn gysylltiedig â Statws Preswylydd Sefydlog, a fyddai'n fwy na dim ond gwasanaethau cynghori traddodiadol yr oedd galw

amdanynt i ddarparu gwybodaeth, ond hefyd gwasanaethau cymdeithasol a chymdeithasu tai, er enghraifft.

2.1.6.2 Y GWASANAETHAU CYMUNEDOL MWYAF AGORED I NIWED

Yn yr ymchwil, roedd y cwestiwn hwn yn canolbwyntio ar y gwasanaethau hynny y dywedodd ymatebwyr oedd yn y perygl mwyaf yng nghyd-destun Brexit.

Roedd yn ymddangos bod ymatebwyr yn edrych ar hyn mewn dwy ffordd. Yn gyntaf, eu bod mewn perygl yn sgil colli cyllid yr UE ac, yn ail, oherwydd pwysau ychwanegol disgwyliedig o ganlyniad i amgylchiadau economaidd lleol a mudiadau'n cymryd gwasanaethau sy'n cael eu gollwng gan y sector cyhoeddus. Nid oes gwahaniaethu clir rhwng y ddau, gyda rhai ymatebwyr yn dweud eu bod mewn perygl ar y ddau gyfrif.

Y gwasanaethau a ddisgrifiwyd amlaf fel rhai mewn perygl oedd:

- Cymorth paratoi pobl at waith, gan fod ymatebwyr yn ofni na fyddai cyllid amgen yn edrych ar y gwaith hwn fel blaenoriaeth; dywedodd elusen fawr lle nad oedd y rhaglenni hyn yn cael eu darparu, roedd hynny'n cael effaith ar wasanaethau statudol a gwirfoddol, yn enwedig yn achos iechyd/caethiwed i sylweddau a throseddu.
- Cydraddoldeb, gan gynnwys cymunedau du a lleiafrifoedd ethnig, oherwydd rhagwelir erydiad y fframwaith deddfwriaethol, ynghyd â chynnydd mewn anoddefgarwch yn y gymuned.
- Cymorth cyffuriau ac alcohol, oherwydd cynnydd yn y galw am wasanaethau.
- Cymorth iechyd meddwl, oherwydd cynnydd yn y galw am wasanaethau.
- Gofal cymdeithasol, oherwydd pryderon y gallai effeithio ar y gweithlu, boed yn ddinasyddion yr UE neu o rannau eraill o'r byd.
- Trefi prifysgol ac ymchwil, oherwydd yr effaith ar y prifysgolion ac economi eu tref wrth i lai o fyfyrwyr o'r UE eu mynychu a llai o ymchwilwyr o'r UE yn llenwi swyddi.

2.1.7 DIMENSIWN CYMREIG UNIGRYW?

Gwelwyd safbwyntiau amrywiol wrth ofyn a oedd unrhyw beth a oedd yn unigryw i Gymru ynglŷn ag effaith y broses Brexit yng Nghymru. Roedd lleiafrif o'r ymatebwyr o'r farn nad oedd dim a oedd yn arbennig i Gymru. I'r rhai hynny a welai ddimensiwn Cymreig unigryw, disgrifiwyd amrywiaeth o agweddau.

Nodwyd fod Cymru wedi bod yn anarferol yn y DU gan ei bod yn fuddiolwr net o gronfeydd yr UE, ac felly bydd y golled o bosibl yn un fwy sylweddol. Fodd bynnag, roedd rhai ymatebwyr yn credu'r gwrthwyneb, gan ddweud bod rhannau economaidd ddifreintiedig o Loegr fel Cernyw neu'r gogledd ddwyrain hefyd yn derbyn lefelau sylweddol o gyllid yr UE, a'u barn oedd bod hyn oherwydd lefelau tlodi sy'n debyg i Gymru. Roedd ambell ymatebwr hefyd yn teimlo bod cyllid cymunedol yng Nghymru wedi cael ei warchod i ryw raddau rhag effeithiau gwaethaf cyni o ganlyniad i bolisïau Llywodraeth Cymru, ac os na all hyn barhau yn y dyfodol, y byddai ergyd ddwbl i fudiadau'r trydydd sector a'u buddiolwyr.

Roedd pryderon na fyddai unrhyw gyllid amgen yn cael ei reoli yng Nghymru ac na fyddai'n cydnabod nodweddion sy'n benodol Gymreig, nac ychwaith y ffaith bod cymunedau gwledig Cymru'n rhan arbennig o bwysig o'i chymeriad. Tynnodd nifer o ymatebwyr sylw at y ffaith bod gan Gymru, drwy'r cyllid, berthynas uniongyrchol â'r UE ac felly rhywfaint o ddylanwad; ac y byddent yn hoffi cadw'r berthynas honno, ac roeddent hefyd eisiau i San Steffan barchu gallu Cymru i wneud penderfyniadau ar gyllid yn yr un ffordd ag y mae'r UE wedi parchu Cymru.

Roedd eraill yn gweld cyfle, gan deimlo efallai y gallai Llywodraeth Cymru gymryd yr awenau i gryfhau rhai fframweithiau deddfwriaethol, e.e. ar gyfer hawliau dynol.

Cafwyd peth sylw i'r Gymraeg a diwylliant Cymru, sylwadau positif a negyddol. Soniodd un ymatebwr am y canfyddiad bod defnyddio a derbyn iaith ychwanegol at Saesneg eisoes yn cael dylanwad positif yng Nghymru ar barodrwydd pobl y wlad i dderbyn ieithoedd Ewropeaidd eraill mewn ffordd nad yw'n digwydd mewn unman arall yn y DU. Fodd bynnag, soniodd un arall am y bygythiadau i'r Gymraeg a'r diwylliant Cymraeg.

> "*Yn ein hardal ni, sy'n Gymreig ac yn Gymraeg, rydyn ni wedi sylwi fod llawer mwy o sôn am Brydeindod a fflagiau Jac yr Undeb ar fwydydd ac ati. Rydyn ni'n rhagweld colli ein hunaniaeth Gymreig o dan don o Brydeindod*".

Nodwyd hefyd mai cymunedau ffermio mewn sawl rhan o Gymru yw cadarnleoedd y Gymraeg, ac y gallai dirywiad y cymunedau hyn a diboblogi olygu bygythiad penodol i'r defnydd o'r iaith yn yr ardaloedd hynny.

2.1.8 CYSYLLTIAD Â CHYFLWR YR ECONOMI

Er mai diben yr ymchwil hwn oedd canolbwyntio ar gymunedau, mae'r ymchwil wedi dangos na ellir anwybyddu cysylltiad rhwng cymunedau, y mudiadau trydydd sector sy'n helpu'r cymunedau hynny, a'r economi. Nododd yr adolygiad llenyddiaeth fod sylwedyddion yn ofni'r effaith negyddol y gallai tueddiadau economaidd eu cael ar amgylchedd gweithredol mudiadau trydydd sector, eu gallu i weithredu a darparu gwasanaethau, a'u cynaliadwyedd yn y tymor hwy.

> *'Disgwylir y byddai gadael heb gytundeb hefyd yn cael effaith economaidd ar unwaith, gan gynnwys y posibilrwydd o ddirwasgiad. Gallai dirwasgiad effeithio ar gyllid cyhoeddus yn y pen draw, a thrwy hynny ar gyllid i elusennau, ond hefyd cynnydd yn y galw am wasanaethau.'*[17]
>
> *'Y bygythiad mwyaf i elusennau fyddai economi sy'n cyfangu a'r effaith y byddai hynny'n ei gael ar elusennau a'r bobl maent yn eu helpu.'* [18]
>
> *'Bydd economi na all helpu'r gwaith mae elusennau'n ei wneud i helpu pobl i ddysgu sgiliau, i ddod o hyd i swyddi ac i ddarparu cymorth i'r mwyaf agored i niwed a difreintiedig greu anawsterau mawr iawn i'n sector a'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.'* [19]

Cafwyd sylwadau gan ymatebwyr mewn cyfweliadau a gweithdai a oedd yn ymdrin â phryderon ynglŷn â'r angen cynyddol o fewn y gymuned ac felly mwy o alw am wasanaethau, sy'n gysylltiedig yn rhannol â'r newidiadau economaidd negyddol ehangach fel cynnydd mewn diweithdra neu wariant cyhoeddus is. Er enghraifft:

"Os bydd busnesau'n methu, ac mae hynny'n rhywbeth rydym yn dechrau ei weld, yna bydd pwysau cynyddol ar adnoddau ar gyfer llesiant, iechyd meddwl ac ati."

2.2 EFFAITH AR ARGAELEDD GWASANAETHAU

Dangosodd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn fod ymatebwyr yn disgwyl effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol ar argaeledd y gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan fudiadau trydydd sector.

Mae effeithiau uniongyrchol yn cynnwys yn gyntaf ac yn bennaf y gwasanaethau hynny sydd ar hyn o bryd yn cael cymorth gan gronfeydd yr UE, yn benodol y rhai hynny lle nad oes llawer o ffynonellau cyllid

[17] Birtwistle et al, 2019
[18] Costelloe, 2017
[19] Etherington, 2019

amgen amlwg, a'r pryder yw y bydd y gwasanaethau hynny naill ai'n cael eu colli'n llwyr neu byddant yn lleihau'n sylweddol. Y meysydd a nodwyd amlaf fel rhai mewn perygl oedd paratoi pobl at waith sy'n cychwyn gryn bellter o'r gweithle, hyfforddiant cyflogaeth i bobl ifanc, cymorth arall i bobl ifanc fel cynlluniau cyfnewid Ewropeaidd, a datblygu cymunedol ac economaidd, gan gynnwys mewn ardaloedd gwledig.

Hefyd, dywedodd nifer fod lleihad blaenorol mewn rhaglenni datblygu cymunedol wedi gwneud cymunedau difreintiedig yn fwy agored i golli cyllid Ewropeaidd.

> "*Gyda diflaniad Cymunedau yn Gyntaf heb ddim i gymryd ei le, nid oes ymyriad gan Lywodraeth Cymru mewn cymunedau, felly ni fydd dim mesurau lliniaru pan ddaw arian yr UE i ben ac nid oes golwg o ddim ar y gorwel i gymryd ei le. Yn awr does dim ar gyfer datblygu economaidd cymunedol na datblygu cymunedol mwy cyffredinol. Ni all Awdurdodau Lleol ei wneud am nad oes ganddynt yr adnoddau".*

Yn yr arolwg ar-lein, roedd 18 o fudiadau'n disgwyl mai un o effeithiau'r broses Brexit ar eu mudiad yn y dyfodol fyddai 'rhoi'r gorau i ddarparu gwasanaethau gan na fyddai dim cyllid yr UE ar gael'. Roedd 25 o fudiadau (18% o'r ymatebwyr i'r cwestiwn hwnnw) yn disgwyl gweld 'galw cynyddol am wasanaethu eu mudiad'. Dim ond 4 mudiad (3%) oedd yn disgwyl 'anhawster i ddarparu gwasanaethau oherwydd dibyniaeth eu mudiad ar breswylwyr yr UE fel cyflogeion neu wirfoddolwyr'. Roedd sylwadau a wnaed yn ychwanegol at y cwestiwn hwn yn nodi y bydd maint yr effaith yn dibynnu i ba raddau y bydd rhywbeth i gymryd lle arian yr UE a pha feysydd gwasanaeth fydd yn cael eu hariannu.

Hefyd, yn yr arolwg, gofynnwyd i ymatebwyr a oedd yn rhagweld y byddai'n rhaid iddynt roi'r gorau i ddarparu eu gweithgarwch oherwydd y byddai cyllid yr UE yn dod i ben pa fathau o wasanaethau fyddai'n cael eu heffeithio, a faint o arian yr UE y bydd eu mudiad yn ei golli. Roedd y duedd yn yr ymatebion hyn yn adleisio tueddiadau'r cyfweleion.

Mae'r tabl sy'n dilyn yn dangos enghreifftiau o'r symiau posibl a all gael eu colli y mae ymatebwyr unigol i'r arolwg yn ei ragweld, a'r mathau o wasanaethau maent yn credu a fydd yn cael eu heffeithio, sy'n seiliedig ar y gwasanaethau a ddarperir ganddynt, ac y maent yn cael arian gan yr UE ar eu cyfer. Noder: nid yw hyn yn adlewyrchu cyfanswm y colledion yn y sector, a fydd yn fwy, ond y colledion gwirioneddol a ragwelir gan y rhai hynny a gymerodd gan yn yr arolwg.

Math o wasanaeth sy'n cael ei ddarparu	**Colledion sy'n cael eu rhagweld**
Cyflogaeth	Cyfanswm o £3m
Cam-drin Domestig	£1.5 m y flwyddyn
Cyngor busnes	£3.4 m y flwyddyn
Cyflogadwyedd	Tua £50K y flwyddyn
Cyflogadwyedd	Ansicr o'r swm, ond bydd y prosiect yn dod i ben

Mae'r ail dabl yn dangos ymatebion eraill a roddwyd yn yr arolwg am y mathau o wasanaethau y mae ymatebwyr yn disgwyl a fydd yn cael eu heffeithio wrth i'w mudiad golli cyllid yr UE, ond ni roddwyd symiau.

MATHAU O WASANAETHAU A EFFEITHIR[20] (Noder: daw'r ymatebion hyn gan grwpiau sy'n cael cyllid yr UE drwy'r Gronfa Cynhwysiant Gweithredol, ac maent felly'n adlewyrchu eu canfyddiadau'n seiliedig ar y math o wasanaeth a ddarperir ganddynt.
Cymorth i grwpiau buddiolwyr penodol i baratoi ar gyfer ac i ymuno â'r farchnad lafur, a chanlyniadau positif eraill
Cyflogaeth
Cyflogadwyedd
Rhaglen gyflogaeth Cymunedau am Waith
Gwella'r amgylchedd i gymunedau
Prosiectau cadwraeth a raddfa tirwedd sy'n cael effaith ar rywogaethau, cynefinoedd a phobl
Addysgu pobl mewn diwylliant amrywiol
Cludiant cymunedol i bobl hŷn ac anabl

> "*Mae gennym fodel cyllido cymysg; fodd bynnag, bydd gwasanaethau'n cael eu colli pan ddaw cyllid Cynhwysiant Gweithredol yr ESF i ben. Bydd yn effeithio ar ein rhaglenni sgiliau cyflogadwyedd, yn enwedig i unigolion ag anableddau a/neu awtistiaeth".*

Fodd bynnag, nid oedd yr ymatebwyr i gyd yn teimlo mai effaith uniongyrchol colli cyllid yr UE oedd yn debygol o fod y ffactor mwyaf arwyddocaol:

> *"Mater bychan fydd colli cyllid yr UE gan fod Trysorlys y DU yn gwarantu y bydd pob ymrwymiad yn cael ei anrhydeddu. Yn fwy allweddol fydd effaith gadael yr Undeb Tollau a'r Farchnad Sengl. Bydd dirywiad economaidd yn arwain at ddiflaniad busnesau ac wedyn at golli gwasanaethau. Mae'n bosibl y bydd colledion treth o fasnach â'r UE o £80bn y flwyddyn; y golled honno mewn incwm ynghyd â gostyngiad mewn gwariant gan y llywodraeth fydd yn cael yr effaith fwyaf ar y gwasanaethau fydd ar gael i'n cymunedau".*
>
> *"Os ydych chi'n fudiad nad yw'n cael ei effeithio gan gyllid yr UE, mi fydd yr effeithiau'n anuniongyrchol, er enghraifft, cynnydd mewn troseddau casineb a fydd yn arwain at angen i newid eu ffordd o weithio. Bydd yn ddibynnol ar ewyllys da pobl i barhau i ddarparu gwasanaethau".*

Roedd pryderon hefyd ynglŷn â'r blwch sy'n cael ei ragweld rhwng cyllid yr UE a'r hyn a ddaw yn ei le, a fyddai'n arwain at fwlch mewn argaeledd gwasanaethau. Er bod llawer o fudiadau wedi profi bwlch rhwng cylchoedd cyllido'r UE, roedd pryder bod hyn yn wahanol oherwydd nad oes eglurder ar hyn o bryd ynglŷn â pha gyllid, os bydd cyllid ar gael o gwbl, fydd ar gael yn y dyfodol. Pryder mawr felly yw y byddai staff neu gontractwyr yn gadael i weithio mewn ardaloedd eraill neu sectorau eraill, oherwydd yr ansicrwydd. Mae hyn yn cael ei ddwysau gan bryderon y bydd gwaith sy'n talu'n well mewn sectorau eraill a'r tu allan i Gymru yn ei gwneud yn anos i recriwtio staff a chontractwyr, a fydd yn ei dro'n effeithio ar allu mudiadau i ddarparu gwasanaethau.

> *"Yn hanesyddol, [yn achos y mudiad hwn] mae cyllid yr UE wedi bod yn gymharol isel; fodd bynnag, mae gennym yn awr brosiectau mawr sy'n cael cefnogaeth drwy gyllid LIFE a SMS. Mae angen am ddilyniant, ac os bydd y gwasanaethau hyn yn cael eu colli [oherwydd*

[20] Noder y bydd tuedd mewn ymatebion mewn cysylltiad â'r llwybrau lledaenu ar gyfer yr arolwg ar-lein, e.e. i bawb sy'n cael grant gan y Gronfa Cynhwysiant Gweithredol

> *prinder arian] hyd yn oed ym ychydig flynyddoedd yn unig, bydd buddiannau gwasanaethau cyfredol yn cael eu colli'n gyflym iawn".*

Disgrifiodd rhai ymatebwyr ddisgwyliadau y byddai cynnydd yn y galw am wasanaethau, er nad oedd yn amlwg bob amser a ellid priodoli hyn yn uniongyrchol i Brexit ynteu a oedd hefyd yn un o nodweddion cyni. Nid oedd modd enwi gwasanaethau'n hyderus oherwydd maint bychan y sampl, ond roedd ymatebwyr yn cynnwys rhai sy'n gweithio yn y maes camddefnyddio sylweddau; gwaith â phobl ifanc (yn enwedig NEET); pobl â phroblemau iechyd meddwl a rhai ag anawsterau dysgu. Nododd eraill fod dirywiad economaidd yn achosi cynnydd yn yr achosion o gam-drin domestig, felly gellid profi pwysau ychwanegol ar dai a gwasanaethau cymorth gan y rhai sy'n cael eu heffeithio.

> "*Rydym yn rhagweld cynnydd yn y galw am wasanaethau, mwy o alw a materion mwy i ddelio â hwy, yn enwedig gan fod disgwyl inni ysgafnhau'r baich ar wasanaethau cyhoeddus sy'n ei chael yn anodd i ymgodymu o ganlyniad i gyni ac o bosibl Brexit".*

Er ei fod wedi'i gysylltu'n anuniongyrchol yn unig ag argaeledd gwasanaethau, mae'n berthnasol i nodi bod canfyddiad pendant ymhlith mudiadau, wedi'i ategu gan enghreifftiau, bod sylw swyddogion y sector cyhoeddus yn cael ei dynnu oddi arnynt ac ar Brexit, a bod hyn yn effeithio ar rai materion ymarferol iawn iddynt, gan gynnwys cael cyllid a bod ag unigolyn a enwir i weithio â hwy.

2.3 EFFAITH COLLI CYLLID YR UE AR HYFYWEDD ARIANNOL MUDIADAU TRYDYDD SECTOR

Mae effaith colli cyllid yr UE yn debygol o gael effaith fwy sylweddol ar sectorau penodol, gan gynnwys cymunedau gwledig, lle mae tariffau wedi'u cyhoeddi eisoes a lle mae ansicrwydd ynglŷn â chymorth cyllido yn debygol o effeithio ar gymunedau amaethyddol ymylol dibynnol. Hefyd, mae'n debygol y bydd effaith ychwanegol ar sectorau penodol sy'n darparu cymorth, fel llwybrau tymor hir i waith yn enwedig yn achos unigolion ag anghenion cymorth ychwanegol, a lle gall tynnu cymorth yn ôl olygu y bydd yn rhaid i'r cymorth gael ei ddarparu gan sector arall (a hynny gan y sector statudol yn aml).

Hefyd, mae'n bwysig nodi nad oedd modd i'r ymchwil hwn gyfleu'n fanwl y risg o golli cyllid UE, gan na allwn gael data'n rhwydd ar lefel a natur dibyniaeth ar gyllid yr UE, e.e. faint yn union o fudiadau sy'n cael cyllid gan yr UE (am na allwn gael data am gronfeydd grant sy'n cael eu dyrannu gan sefydliadau canolraddol), nifer y mudiadau y mae eu prif ffynhonnell incwm yn gyllid yr UE, na nifer y mudiadau y byddai eu hyfywedd ariannol yn cael ei beryglu wrth golli cyllid yr UE hyd yn oed os yw'n ddim ond swm cymharol fychan.

Oherwydd eu natur mae cronfeydd strwythurol yng Nghymru'n cael eu defnyddio i helpu'r cymunedau mwyaf difreintiedig, sy'n golygu y bydd diddymu/lleihau unrhyw arian yn cael effaith anghymesur ar y cymunedau hyn. Mae enghreifftiau o brosiectau fel y gronfa Cynhwysiant Gweithredol yn dangos y gallai 100 neu fwy o brosiectau fod yn rhedeg yn y cymunedau mwyaf difreintiedig ar unrhyw adeg, ac yn gweithio â'r rhai â'r angen mwyaf. Er bod peth o'r arian mae'r sector yn ei gael ar raddfa fach yn unig mae o bwys enfawr i'r cymunedau hynny, a byddai ei golli'n golled fawr a gallai gael effaith sylweddol.

Nid oedd data ar gael sy'n egluro dibyniaeth gymharol mudiadau unigol ar gyllid yr UE. Soniodd rhai a ymatebodd i'r astudiaeth hon am golled uniongyrchol incwm a dywedwyd mai'r mudiadau mewn mwyaf o berygl oedd y rhai a oedd yn fwyaf dibynnol ar gyllid yr UE, ond ni chafwyd llawer o fanylion.

> "*Mae'r rhai sydd â'u hwyau i gyd ym masged arian yr UE mewn perygl arbennig".*

> *"Mae costau craidd ac uwch reolwyr mudiadau trydydd sector fel Menter Môn yn cael llawer o gymhorthdal gan yr UE, (e.e. nid yw prosiectau sy'n cael eu hariannu gan*

> *grantiau'n cyfrannu at gyflog y Prif Swyddog Gweithredol). Os collir uwch reolwyr a chyllid craidd y mudiadau hyn, yna byddant yn llai cydnerth a hyfyw."*
>
> *"Rydym wedi gallu tyfu, yn rhannol am fod ein prosiectau mawr [sy'n cael eu hariannu gan yr UE] yn cefnogi ein gweithgarwch craidd. Os bydd nifer o'r prosiectau hyn yn cael eu colli, gallai'r effaith fod yn drychinebus i'r mudiad".*

Nodwyd fod effaith colli cyllid yr UE yn fwy na dim ond colli'r swm hwnnw o arian, ond byddant hefyd yn colli'r trosoledd y mae'r cyllid hwnnw wedi'i alluogi.

Nid oedd cwmpas yr adroddiad hwn yn ystyried yn benodol ddibyniaeth mudiadau unigol ar gronfeydd strwythurol. Mae WCVA yn credu bod 80% o'r mudiadau sy'n cael eu hariannu drwy Gynhwysiant Gweithredol yn ddibynnol ar y cronfeydd hyn i ddarparu gwasanaethau nad ydynt yn cael eu hariannu mewn ffyrdd eraill. Bydd angen ymchwil penodol i'r pwnc hwn i ddangos yn eglur faint y ddibyniaeth ar gronfeydd strwythurol.

Mae canfyddiadau a gyflwynir yn yr adolygiad llenyddiaeth yn awgrymu nad yw effaith Brexit ar gynaliadwyedd ariannol mudiadau'n debygol o gael ei deimlo yn yr un ffordd ar draws y DU na drwy'r trydydd sector. Mae'r Directory for Social Change yn nodi, er enghraifft, bod *'variations in funding levels across topics and regions means that the impact of a potential non-replacement of funding could disproportionately affect certain charities, causes or UK home nations'*[21]. Mae sectorau y tybir sydd mewn risg benodol (ar lefel y DU) yn cynnwys gofal, gwaith cymdeithasol, iechyd a gofal cymdeithasol, a datblygu rhyngwladol. Roedd pryder am effaith anuniongyrchol, yn yr ystyr bod disgwyliad mawr y bydd mwy o gystadleuaeth am y ffrydiau ariannu sy'n weddill, ac y bydd Awdurdodau Lleol (oherwydd y pwysau ariannol maent yn eu hwynebu eu hunain) yn lleihau faint o arian fydd ar gael i fudiadau trydydd sector, a bod y ffactorau hyn gyda'i gilydd yn golygu mwy o fygythiad i hyfywedd ariannol na cholli cyllid yr UE yn uniongyrchol. Hefyd, nodwyd fod risg bellach i'r trydydd sector os bydd dirywiad economaidd gyda sgil effeithiau hynny, a hynny ar ben y pwysau presennol o ganlyniad i gyni.

> "*Os bydd Awdurdodau Lleol a Llywodraeth Cymru'n cloi'r drysau, ac yn darparu gwasanaethau'n fewnol, bydd mudiadau'n diflannu."*
>
> *"Mae'n dibynnu pa mor ddibynnol ydynt ar gymorth yr UE. Po fwyaf y ddibyniaeth, y mwyaf fydd y risg. Byddant yn fwy cydnerth os oes ganddynt fodel mwy masnachol; fodd bynnag, byddai dirywiad economaidd yn effeithio ar eu hincwm ac yn eu rhoi mewn perygl."*
>
> *"Mae'n amheus a fyddant yn parhau i fod yn hyfyw, gyda phwysau ychwanegol ac o bosibl llai o gyllid neu gyllid gwahanol."*
>
> *"Mae pethau'n llawer anos wrth i arian yr UE ddiflannu a heb yr hyder y bydd cynlluniau Llywodraeth y DU a fydd yn cymryd eu lle yn ddigonol. Bydd mwy o bwysau ar ymddiriedolaethau a sefydliadau sy'n dyrannu grantiau'n arwain at fwy o gystadleuaeth am adnoddau".*

Mae Ciparolwg 2019 WCVA yn cadarnhau'r canfyddiadau hyn, gydag 82% o'u hymatebwyr yn datgan y byddai Brexit yn cael effaith negyddol ar eu gallu i gael gafael ar grantiau.

Mae ffactor arall sy'n ymwneud â hyfywedd ariannol, o ran yr ansicrwydd ariannol y mae llawer o fudiadau trydydd sector yn ei deimlo. Nid yw hyn yn unigryw i Gymru, ond roedd yn neges a fynegwyd yn eglur iawn gan ymatebwyr i'r ymchwil hwn.

[21] Cooney a Ferrell-Schweppenstedde, 2017

> "*Bydd llawer yn dibynnu i ba raddau y bydd cyllid yr UE yn cael ei newid/ei efelychu gan raglenni cyllido Llywodraethau Cymru neu'r DU, os o gwbl, ac ni wyddom hynny ar hyn o bryd.*
>
> *"Nid oes modd gwybod ar hyn o bryd".*
>
> *"Mae'n anodd dweud".*

Mae peth pryder hefyd, er nad oes data ar gael i gadarnhau hynny, y gall hyfywedd ariannol rhai mudiadau fod mewn perygl ond nad ydynt yn sylweddoli hynny am nad ydynt yn ymwybodol eu bod yn cael arian sy'n deillio o'r UE. Enghraifft o hyn fyddai grŵp cymunedol sy'n cael £5 - £20k drwy gynllun fel LEADER / RDP, ond sy'n cael ei reoli drwy'r Awdurdod Lleol. Er y byddant wedi cael gwybodaeth am gyllid yr UE, efallai y bydd y mudiadau sy'n cael grantiau o dan yr argraff bod yr arian yn dod oddi wrth yr Awdurdod Lleol.

> "*Yr ofn i'r mudiadau trydydd sector llai a all fod yn cael arian gan yr UE ond nad ydynt yn sylweddoli mai'r UE yw'r ffynhonnell, yw na fyddant yn ymwybodol y bydd yr arian hwnnw'n dod i ben yn y dyfodol".*

Dywedodd un ymatebwr y gallai mudiadau ag incwm buddsoddi wynebu risgiau os bydd y marchnadoedd yn tanberfformio oherwydd yr ansicrwydd economaidd, ac y byddai hynny wedyn yn cael effaith negyddol ar incwm y mudiadau; rhoddwyd enghraifft o un mudiad a brofodd ostyngiad o 13% mewn incwm buddsoddi a oedd yn cael ei briodoli'n uniongyrchol ganddynt i effeithiau proses Brexit.

2.4 EFFAITH AR WEITHLU MUDIADAU TRYDYDD SECTOR

Mae'r ymchwil hwn wedi ymdrechu i ddarganfod pa effaith y byddai Brexit yn ei gael ar y gweithlu, gan edrych ar staff cyflogedig a gwirfoddolwyr. Roedd yn amhosibl cael data cynhwysfawr a chywir ar nifer gwladolion yr UE sy'n cael eu cyflogi yn y trydydd sector yng Nghymru, er bod modd cael rhyw syniad drwy wneud amcangyfrifon yn seiliedig ar nifer gwladolion yr UE yn y gweithlu'n gyffredinol, ac o ymatebion cyfyngedig i'n hymchwil.

2.4.1 GWLADOLION YR UE YN Y GWEITHLU'N GYFFREDINOL

Amcangyfrifir fod 82,000 o wladolion yr UE yn byw yng Nghymru ym Mehefin 2018, sy'n cyfateb i 2.6% o'r boblogaeth Cymru o 3.12 miliwn (ONS, 2018). Mae nifer gwladolion yr UE y dywedir sy'n gweithio yng Nghymru ar hyn o bryd yn 42,900[22], sy'n is na'r 47,300 yn 2017, sef ar y pryd y cyfanswm uchaf o wladolion y DU yn gweithio yng Nghymru a gofnodwyd. Mae StatsCymru yn cynnig amcangyfrif gwahanol, sef bod 55,400 o wladolion yr UE yn gweithio yng Nghymru ym mis Mawrth 2019. Am nad oes gofyniad i gofrestru fel gwladolyn yr UE i ddibenion cyflogaeth, mae'n anodd cael ffigurau manwl am nifer gwladolion yr UE sy'n gweithio yng Nghymru.

[22] Gostyngiad yn nifer gwladolion yr UE sy'n gweithio yng Nghymru, yn ôl adroddiad ar y BBC (https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-politics-45560584) yn seiliedig ar ystadegau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/internationalmigration/bulletins/ukpopulationbycountryofbirthandnationality/2018



Mae data[23] sy'n dadansoddi'r ffigurau ym mhob un ond tair ardal Awdurdod Lleol (Ynys Môn, Pen-y-bont, ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf), yn dangos amrywiadau sylweddol yng nghyfran gwladolion yr UE yng ngweithlu ardal pob Awdurdod Lleol; yn anffodus nid oes data ar gael a allai egluro'r amrywiadau hyn.



Caerdydd sydd â'r nifer uchaf o wladolion yr UE yn eu poblogaeth weithio, sef 11,000. Mae pob awdurdod arall lle mae data ar gael yn amrywio rhwng 5,100 a 900. Wrecsam a Chasnewydd sydd â'r gyfran uchaf o wladolion yr UE fel canran o gyfanswm eu poblogaeth, sef 9.8% a 8.1% yn y drefn honno (StatsCymru, 2018).

[23] StatsCymru: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Business-Economy-and-Labour-Market/People-and-Work/Employment/Persons-Employed

Cyflogeion yng Nghymru yn ôl eu Gwlad Wreiddiol (DU/UE/O'r tu allan i'r UE a'r DU) 2018

	Tarddu o'r DU	**Tarddu o'r UE**	**Y tu allan i'r UE a'r DU**	**Cyfanswm**
Caerdydd	162,600	11,000	14,100	187,700
Rhondda Cynon Taf	105,200	-	4,000	109,100
Abertawe	92,400	4,700	9,800	106,900
Sir Gaerfyrddin	77,600	2,500	2,500	82,700
Caerffili	77,700	3,500	700	81,900
Sir y Fflint	69,800	4,100	2,100	76,000
Casnewydd	63,100	5,100	3,300	71,500
Wrecsam	62,100	6,100	1,700	69,900
Castell-nedd Port Talbot	61,000	1,100	1,500	63,600
Pen-y-bont ar Ogwr	60,600	-	1,400	63,600
Bro Morgannwg	60,000	1,500	1,900	63,400
Powys	59,900	1,200	1,400	62,500
Gwynedd	55,200	1,600	1,400	58,300
Sir Benfro	53,100	1,100	1,100	55,400
Conwy	46,400	2,000	1,500	49,900
Sir Fynwy	42,000	1,100	1,100	44,200
Sir Ddinbych	41,000	1,100	1,500	43,500
Torfaen	39,000	900	1,200	41,100
Ceredigion	32,200	2,000	800	35,000
Ynys Môn	31,200	-	1,100	32,300
Blaenau Gwent	30,600	900	200	31,700
Merthyr Tudful	25,000	1,400	900	27,300
Cyfansymiau	**1,347,700**	**52,900**	**55,200**	**1,457,500**

Mae'r ffigurau yn y tabl hwn wedi'u codi'n uniongyrchol o ddata StatsCymru (gweler y troednodyn). Lle mae gwahaniaethau bach yn y tabl e.e. ar gyfer Rhondda, mae'r gwahaniaethau hyn wedi'u copïo'n uniongyrchol o'r data

2.4.2 GWLADOLION YR UE YNG NGWEITHLU'R TRYDYDD SECTOR

Ni wyddys faint o wladolion yr UE sy'n gweithio yn y trydydd sector yng Nghymru na faint o wladolion yr UE sy'n gwirfoddoli. Gallwn wneud amcangyfrif bras yn seiliedig ar nifer gwladolion yr UE fel cyfran o'r gweithlu'n gyffredinol yng Nghymru i roi syniad:

> Nifer gwladolion yr UE sy'n gweithio yng Nghymru: 42,900 i 55,400 (4.4 i 5.7% o gyfanswm y gweithlu)

Nifer y bobl sy'n gweithio yn y Trydydd Sector yng Nghymru: 100,000[24]

Nifer posibl o wladolion yr UE sy'n gweithio yn y Trydydd Sector yng Nghymru: 4,400 i 5,700

Yn ôl y Charity Finance Group (CFG) mae nifer gwladolion yr UE sy'n gweithio ag elusennau'r DU tua 4% o weithlu presennol elusennau[25], sy'n rhoi ffigur o 4,000 ar gyfer Cymru.

Gan edrych y tu allan i Gymru, dywed NCVO[26] fod 4-6% o gyflogeion yn y sector ar draws y DU yn wladolion yr UE; mae'r gyfran uchaf yn ddaearyddol yn Llundain, a'r sector mwyaf yw gwaith cymdeithasol.

Yn ôl y Charity Finance Group (2018) mae gwladolion yr UE sy'n gweithio yn y sector gwirfoddol a chymunedol yn y DU wedi eu *'largely concentrated in social work, residential care, education and membership organisations, tending to be younger and more highly qualified than UK workers.'*

Mae data o'r arolwg ar-lein yn yr ymchwil hwn yn rhoi peth gwybodaeth gyfyngedig iawn. O'r 29 mudiad a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, gyda'r mwyafrif ohonynt yn cyflogi staff, dim ond 2 fudiad a ddywedodd bod ganddynt wladolion yr UE fel staff cyflogedig; mae un o'r mudiadau hyn yn cyflogi dau o wladolion yr UE; ni ddywedodd y llall faint a gyflogir ganddo. Dywedodd pedwar mudiad fod ganddynt wladolion yr UE ymhlith eu gweithlu o wirfoddolwyr; o blith y rhain, roedd gan un mudiad un gwladolyn yr UE yn gwirfoddoli, roedd gan ddau fudiad ddau wirfoddolwr ac roedd gan un mudiad bump.

2.4.3 EFFEITHIAU A RAGWELIR AR Y GWITHLU

Mae ymatebion i gwestiynau ar yr effaith ar y gweithlu'n awgrymu nad yw'n fater arwyddocaol iawn i ymatebwyr.

> "*Nid yw'n fater arwyddocaol; mae'r gymuned o fewnfudwyr o'r UE yn un fechan, ac nid oes cynrychiolaeth fawr yn y sector".*

Dim ond pedwar ymatebwr i'r arolwg ar-lein (3% o'r ymatebwyr i'r cwestiwn penodol hwnnw) a ddywedodd eu bod yn disgwyl i un o effeithiau proses Brexit ar eu mudiad i fod yn 'Anhawster darparu gwasanaethau oherwydd dibyniaeth eu mudiad ar breswylwyr yr UE fel cyflogeion neu wirfoddolwyr'. Ni roddwyd rhagor o fanylion yn yr arolwg; fodd bynnag, mewn cyfweliadau, dywedodd mudiadau sy'n darparu cymorth i fewnfudwyr eu bod yn defnyddio gwladolion yr UE fel cyfieithwyr gwirfoddol, yn enwedig yn achos ymyriadau yn ymwneud â chymorth iechyd a gofal cymdeithasol. Dywedodd un cyfwelai yn y sector amgylcheddol eu bod, ymhlith eu haelodau, yn disgwyl y byddai "*colledion go sylweddol mewn staff o ran canran"* ond ni roddwyd rhagor o fanylion.

Yn achos mudiadau heb wladolion yr UE ymhlith eu gweithlu, dywedwyd eu bod yn defnyddio eu gallu mewnol i gynnig ac, os oedd angen, i ddarparu cymorth a chyngor yn gysylltiedig â Statws Preswylydd Sefydlog.

> "*Mae gennym 120 o staff a dim ond un gwladolyn yr UE, ac rydym yn ei helpu drwy'r broses aros*."

[24] 'People employed in the Charity/Voluntary Sector', WCVA Porth Data: https://www.wcva.org.uk/what-we-do/the-third-sector-data-hub?seq.lang=cy-GB

[25] The Charity Workforce in Post-Brexit Britain – Parliamentary Briefing: https://cfg.org.uk/userfiles/documents/Policy%20documents/Briefing%20-%20Brexit%20Charity%20Sector%20Workforce%20Report%20-%20June%202018%20%282%29.pdf

[26] UK Civil Society Almanac, 2019

> *“Mae dinasyddion yr UE yn cael eu cyflogi yn y sector, yn enwedig mewn amaethyddiaeth, iechyd a gofal cymdeithasol. Mae ansicrwydd i unigolion ac mae hynny’n rhwym o fod yn anodd iddynt. Mae pobl sydd wedi bod yn gweithio yma ers blynyddoedd yn awr yn gorfod cofrestru. Fodd bynnag, nid oes gwybodaeth i fudiadau ar sut i helpu a chefnogi eu staff. Rydym yn gorff ymbarél ar gyfer y trydydd sector ac nid ydym wedi cael dim cyngor nac arweiniad ar sut y gallwn/dylwn ni helpu’r sector”.*

Mynegwyd pryderon am effeithiau anuniongyrchol hefyd. Roedd pryder penodol yn y sector gofal cymdeithasol y gall buddiolwyr gael anhawster cael gafael ar gymorth gofal, er y credir mai nifer cymharol isel o wladolion yr UE sydd wedi’u cyflogi yn y sector gofal cymdeithasol gwirfoddol, oherwydd bod sgil effeithiau Brexit yn gwneud y DU yn lle llai dymunol i rai nad ydynt yn wladolion y DU i weithio, a hefyd os daw’r gofynion posibl am isafswm incwm blynyddol i wladolion yr UE sy’n gweithio yn y DU i rym.

> “*Nid ydym yn siŵr. Rydym yn teimlo bod gweithlu sylweddol yn y sector gofal, ond nid yn y trydydd sector. Mae rhai unigolion yn defnyddio eu PIP i brynu eu gofal eu hunain, a daw peth o hyn gan wladolion yr UE, felly maent yn bryderus”.*

Nodwyd hefyd fod adrannau gwasanaethau cymdeithasol rhai Awdurdodau Lleol wedi canfod risg os yw’r GIG gerllaw yn ceisio denu staff nyrsio i ddelio â phrinder yn y gweithlu, y gallai hynny wneud y gwaith o recriwtio ar gyfer y sector gofal cymdeithasol gwirfoddol yn anos.

Yn fwy cyffredinol, mae pryder y gallai’r trydydd sector fod yn ddewis llai dymunol fel cyflogwr oherwydd y problemau cyllido cynyddol a ragwelir yn y sector. Hefyd, o ganlyniad i’r galw cynyddol am wasanaethau ond gyda llai o adnoddau i gynyddu’r gweithlu i gyd-fynd â hynny, gellid gweld mwy o straen ar staff a gwirfoddolwyr.

> “*Mae’n gyfnod o ansicrwydd i’r gweithlu, heb wybod beth sy’n dod nesaf. Mae perygl y gall y sector golli staff, ynghyd â’u sgiliau a’u profiad”.*

2.5 AMSERU EFFAITH

Dywedodd 63% o’r mudiadau a ymatebodd i’r cwestiwn yn yr arolwg ar-lein nad oeddent yn profi unrhyw effeithiau eto.

O’r rhai a ddywedodd eu bod eisoes yn profi effeithiau, roedd y sylwadau mwyaf cyffredin yn ymwneud â’r canlynol: ansicrwydd yn ei gwneud yn fwy anodd i wneud cynlluniau mwy tymor hir ar gyfer eu mudiad; effeithiau ar eu cyllid; mynd â sylw swyddogion sector cyhoeddus. Fodd bynnag, dylid nodi mai dim ond 21 o fudiadau a oedd wedi ymateb i’r cwestiwn hwn.



Yn achos y mudiadau hynny sy'n cael cyllid yr UE, nodwyd y bydd y prif effaith yn cael ei deimlo pan ddaw'r ymrwymiadau cyllido presennol i ben, erbyn 2022, er ei bod yn bosibl y bydd effeithiau cyn hynny os bydd unigolion yn chwilio am swyddi newydd cyn dyddiad cwblhau eu prosiectau. Soniodd un mudiad sy'n rhedeg prosiectau sy'n cael eu hariannu gan yr UE anhawster cynyddol wrth geisio recriwtio staff i rai swyddi, a'u bod yn credu mai'r rheswm yw am nad yw darpar ymgeiswyr yn edrych arnynt fel swyddi tymor hir gan ei bod yn debygol iawn y bydd y prosiectau, a'r swyddi'n dod i ben yn 2022, er eu bod yn nodi y gallai marchnad swyddi fwy bywiog hefyd fod yn ffactor.

Roedd llawer a ymatebodd i'r ymchwil yn teimlo y byddai amseriad effeithiau yn gyffredinol yn dibynnu i raddau helaeth iawn ar yr hyn sy'n digwydd gyda Brexit, a pha bryd. Byddai effeithiau i'w gweld ar unwaith os bydd y DU yn ymadael heb gytundeb. Roedd awgrym "*y byddai trefn Brexit 'heb gytundeb' a gyda 'chytundeb' yr un fath, ond gydag amserlen wahanol iawn*". Fodd bynnag, ar y cyfan, roedd teimlad y byddai'r prif effeithiau, fel y dangosir yn y graff uchod, i'w teimlo yn y tymor canolig i hir, ac y byddai pob un o'r effeithiau i'w teimlo dros gyfnod hir, ond roedd yn amhosibl bod yn fanwl gywir am natur na maint yr effeithiau posibl gan fod cymaint o ffactorau anhysbys.

> *"Mae'n anodd dweud heb ddealltwriaeth o beth fydd Brexit. Gyda 'dim cytundeb', gallai fod yn weddol sydyn; gyda chytundeb, efallai y bydd effaith dymor hir ar wasanaethau, ond mae'n dibynnu ar y cytundeb ymadael".*

> *"Bydd i'w deimlo am flynyddoedd a bydd yn effeithio ar y genhedlaeth nesaf. Nid yw'n mynd i fod yn fân ac yn fuan, mae'n mynd i fod yn faith ac yn boenus... mae'n mynd i gymryd blynyddoedd i sefydlogi pethau unwaith eto".*

> *"Dim syniad. Pa bryd fydd o'n digwydd? Sut fydd yr holl beth yn edrych?"*

"Mae'n dibynnu sut fydd Brexit yn gweithio".

Disgwylir y bydd effeithiau yn y tymor hwy'n gysylltiedig ag effeithiau ar yr economi, mewn sectorau penodol; y rhai a nodwyd amlaf oedd amaethyddiaeth, gweithgynhyrchu a gofal cymdeithasol.

Bu un ymatebwr yn ystyried potensial 'aros', sef pe byddai pleidlais arall a bod honno o blaid aros, byddai mudiadau ar ei hôl hi o ran bod yn barod ar gyfer rhaglenni, cyllid, deddfwriaeth newydd y DU.

2.6 EFFEITHIAU A CHYFLEOEDD POSITIF POSIBL

Er bod barn y rhan fwyaf o ymatebwyr i'r ymchwil yn dywyll, nid oedd hynny'n wir yn achos pawb, ac roedd yr ymchwil yn cynnwys cwestiynau wedi'u cynllunio i ganfod a oedd ymatebwyr yn rhagweld unrhyw effeithiau a chyfleoedd positif, ac os oeddent, beth.

Yn yr arolwg ar-lein, yr ymateb mwyaf cyffredin i gwestiwn am effeithiau positif oedd 'Mwy o ddiddordeb/cysylltiad â phrosesau gwleidyddol lleol', er bod 14 o fudiadau wedi dweud nad oeddent wedi profi dim effeithiau positif.



Roedd y mathau o effeithiau neu gyfleoedd positif a ddisgrifiwyd gan ymatebwyr yn cynnwys:

- Cyfleoedd economaidd, gan gynnwys cyfleoedd cyflogaeth, cyfleoedd i feithrin gweithlu mwy medrus, a chyfleoedd gweithgynhyrchu domestig y gallai mentrau cymdeithasol fanteisio arnynt.

  "*Mae hwn yn gyfle da i drafod sut i wneud caffael yn iawn yng Nghymru. Gellid creu cyfleoedd ar gyfer buddsoddi lleol a chaffael lleol. Gall perthnasoedd masnachu lleol arwain at wasanaethau a chynnyrch newydd, e.e. gwasanaethau gofal, ffyrdd o adeiladu cartrefi".*

- Cyfleoedd cyllido newydd a gwahanol a chynhyrchu incwm, gan gynnwys cyllid amgen wedi'i addasu ar gyfer Cymru gyda llai o fiwrocratiaeth, mwy o ffyrdd o gynnwys mentrau cymdeithasol.

  "*Efallai ei fod yn gyfle i ysgrifennu ein rheolau ein hunain ar gaffael a'r fframwaith polisi".*

  "Dylai fod yn gyfle euraidd i Gymru i gamu allan ar ei phen ei hun a gwneud rhywbeth gwahanol".

"Bydd yn gorfodi mudiadau i edrych yn fanwl ar sut maent yn cynhyrchu eu hincwm".

"Mae sicrhau cyllid gan yr UE yn broses anodd, un sy'n gofyn am lawer o amser ac mae mudiadau bach yn ei chael yn anodd i wneud cais, ac mae'n broses feichus iawn i'w rheoli. Gallem wella hynny gyda chynlluniau cyllido'r dyfodol a datrys y problemau, h.y. ad-drefnu'r prosesau gweinyddol".

- Datblygu perthnasoedd newydd, boed hynny'n golygu cydweithredu o fewn y trydydd sector, neu edrych yn allanol i gyfeiriad y sector preifat neu gyhoeddus.

  "*Mae'r hyn rydym yn ei wynebu'n newid sylfaenol, e.e. ymgysylltu â'r sector preifat".*

- Cyfle i hyrwyddo gwerth y trydydd sector o fewn yr economi ehangach ymhlith llunwyr polisi.

- Cyfle am sgyrsiau newydd a gwahanol gyda llunwyr polisi, ac annog newid mewn polisi.

  "*Mae wedi helpu i atgyfnerthu'r ymgyrch dros ddull hawliau dynol yng Nghymru, ac efallai rhywfaint o newid yn y synau mae Llywodraeth Cymru'n eu gwneud*".

  "*Yng Nghymru'n benodol, mae Brexit wedi esgor ar drafodaethau a phrosiectau na fyddai wedi digwydd fel arall, e.e. cydlyniant cymunedol, cydraddoldeb. Efallai bod cyfleoedd am ddeddfwriaeth yng Nghymru a allai arwain at integreiddio offerynnau hawliau dynol o fewn deddfwriaeth Gymreig*".

- Ffyrdd newydd o weithio a meddwl, mabwysiadu dulliau gwahanol i geisio datrys problemau sydd wedi bod yn wynebu cymunedau ers amser maith. Cafwyd nifer o gyfeiriadau at y potensial sydd gan y model 'economi seiliol' i'w gynnig.

  "*Gallai fod yn gyfle i'r trydydd sector i wneud rhywbeth gwahanol, ochr yn ochr â'r sectorau preifat a chyhoeddus. Nid dim ond cyflawni polisi cyhoeddus yn rhatach na'r sector cyhoeddus .... Mae angen i ni feddwl sut yr ydym yn cefnogi lle mewn ffordd llawer mwy dychmygus".*

  "Ffordd wahanol o weithio â'n cymunedau, gan gynnwys cyd-gynhyrchu, sy'n seiliedig ar asedau ac ar leoedd. Efallai bod cyfle'n awr i ddarbwyllo Llywodraeth Cymru i fabwysiadu'r syniadau hyn. Ac mae'n gyfle i gael trafodaeth eang ar sut i rymuso ein cymunedau".

2.7 CEFNOGI 'GOFYNION'

Mae'r adran hon yn cyflwyno'r hyn a awgrymwyd gan ymatebwyr o ran ba fath o gymorth a fyddai fwyaf buddiol i helpu mudiadau trydydd sector i ymdopi ag effeithiau proses Brexit. (Gweler Adran 4 am argymhellion cymorth y tîm ymchwil). Roedd ymatebwyr yn cael eu hannog i ystyried elfennau heblaw mwy o arian yn unig, ac i feddwl yn ofalus am eu hanghenion yn benodol yng nghyd-destun effeithiau Brexit.

Yn yr arolwg ar-lein, roedd yr ymatebion mwyaf cyffredin yn ymwneud â chyllido, yna eglurder ynglŷn â'r hyn fydd yn digwydd ar ôl Brexit i alluogi mudiadau i gynllunio, a pherthynas a chyfathrebu'r sector â Llywodraeth Cymru.

	Ymatebion
Cyllid mwy tymor hir	33
Cyllid ar gyfer dulliau/gweithgarwch sydd wedi profi'u hunain, ac nid ar gyfer gwaith arloesol yn unig	25
Gofynion adrodd llai cymhleth ar gyfer y cyllid a geir	13
Gofyniad bod y trydydd sector yn bartner cydradd mewn unrhyw gyllid sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru i fod yn seiliedig ar bartneriaeth	16
Cyfathrebu buddiol gan Lywodraeth Cymru ar werth gwaith y trydydd sector mewn cymunedau	10
Eglurder ynglŷn â beth fydd yn dilyn proses Brexit, fel y gall mudiadau gynllunio'n effeithiol	18
Eglurhad heb jargon o broses Brexit a'r hyn fydd yn ei ddilyn	8
Llywodraeth Cymru'n ymgysylltu mewn modd ystyrlon â'r trydydd sector mewn penderfyniadau ar yr hyn fydd yn dod ar ôl Brexit	18
Llywodraeth Cymru'n ymgysylltu mewn modd ystyrlon â'r sector ynglŷn â'r hyn sy'n gweithio'n dda mewn diwylliant o lai o adnoddau	11
Llywodraeth Cymru'n gweithio ar draws sectorau ac nid yn ynysig	17

I raddau helaeth roedd yr ymatebion yn ystod gweithdai a chyfweliadau'n adlewyrchu canfyddiadau'r arolwg ar-lein, ond gyda mwy o bwyslais ar lais i'r sector a galluogi cydnerthedd sefydliadol nad oedd yn bosibl drwy gwestiwn yr arolwg.

Gan edrych yn fwy manwl ar flaenoriaethau sy'n gysylltiedig â chyllido, roedd yr ymatebion yn cynnwys:

- Awydd cryf i gael cyllid sy'n cynnwys costau craidd mudiadau, a oedd yn cael ei weld fel rhywbeth sylfaenol i alluedd a chynaliadwyedd mudiadau.
  "*Cydnabod, a chefnogaeth, i gostau 'gorbenion' sy'n gysylltiedig â chynnal mudiad a'i drefniadau llywodraethu i safon sy'n rhesymol i'r sector cyhoeddus, cyllidwyr, a'r cyhoedd i'w disgwyl. Nid yn unig trefniadau cyfrifyddu ac adrodd cadarn, ond hefyd pethau llai amlwg ac nad ydynt yn gysylltiedig â phrosiectau fel diweddaru/adolygu polisïau, cynnal systemau TG diogel a chyfoes ac ati, a all fod yn dipyn o her hyd yn oed pan ganiateir adfer costau llawn i raglenni unigol".*
  "Gwleidyddion y Cynulliad yn sylweddoli bod trydydd sector bywiog yn rhan o gymdeithas sifil a goresgyn eu hamheuon am gyllid craidd. Mae penderfyniadau diweddar wedi bod yn ergyd i rai mudiadau trydydd sector ac o'r herwydd maent wedi colli sgiliau, gwasanaethau ac mae'r amgylchedd ar ei golled".
- Trefniadau dyfarnu grantiau'n haws i'w rheoli, gyda llai o fiwrocratiaeth.
- Cyllido dros gyfnodau hwy na'r presennol.
  "*Ariannu cynllunio tymor hir yn hytrach na datrysiadau tymor byr. Byddwch yn ddewr; buddsoddwch yn briodol yn nyfodol pobl".*

"Nid yw natur tymor hir cyllid yn dda i ddim i ddefnyddwyr gwasanaeth; mae'n codi eu gobeithion ac yna'n eu siomi".

- Penderfyniadau ar ddyrannu arian ar lefel sy'n agos at y sawl sy'n cael eu grant.
  "*Mae angen i Lywodraeth Cymru (a CLlLC) sicrhau bod cyllido a phrosesau penderfynu ar lefel fwy lleol (ac yn fwy lleol na lefel BGC). Mae angen newid polisi i hybu a chymell hyn, fel arall bydd popeth yn cael ei lyncu gan yr enwau 'mawr' a byddant yn dal eu gafael ynddynt a bydd popeth yn union fel o'r blaen.*

O ran gwybodaeth, y prif gais oedd gofyn am eglurder ynglŷn â Brexit, gan gydnabod nad oes dim eglurder ar hyn o bryd, ond pan fydd y sefyllfa'n gliriach, bydd yn bwysig bod mudiadau'n cael gwybodaeth am Brexit sy'n eglur a dealladwy, yn ddiduedd ac a fydd ar gael mewn modd amserol. Er mwyn gwneud hyn, rhaid sicrhau bod y trydydd sector mewn sefyllfa i allu darparu'r gwasanaeth hwn i'w fudiadau.

"Gwybodaeth amserol o ansawdd da. Am nad yw'r sector yn gwybod eto beth sy'n digwydd, ni all gynllunio dim".

"Gwybodaeth glir, pan fydd ar gael, ac sy'n hollol ffeithiol fel y bydd mudiadau'n gallu gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth".

"Rhoi proses Brexit mewn geiriau y gall pawb eu deall, heb jargon fel y bydd pobl yn gallu gwneud penderfyniad ar sail gwybodaeth".

Roedd cais pendant o ran helpu mudiadau i fod yn fwy cydnerth, gan gynnwys mabwysiadu ffyrdd newydd o feddwl a gweithio. Roedd awgrymiadau ar gyfer help yn cynnwys: mentora a hyfforddiant er mwyn meithrin galluedd, gwybodaeth a sgiliau mewn mentergarwch fel modd o gynhyrchu incwm; helpu mudiadau i adolygu a deall eu hopsiynau cynhyrchu incwm, ac yna eu gwireddu; helpu mudiadau i wella eu sgiliau cynllunio strategol; cymorth ar gyfer llywodraethu cadarn, e.e. polisïau, systemau a phrosesau.

"Mae mudiadau bach yn llawer mwy tebygol o feddwl am geisiadau am grant na masnachu, h.y. sut i ddatblygu marchnad ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir ganddynt, gan gynnwys cynnig am gomisiynau. Felly, cymorth i wneud ceisiadau, cydweithredu, meddwl yn wahanol, gan gynnwys gweithio â byrddau ymddiriedolwyr sy'n gweld eu hunain fel elusen ac nid fel busnes, ac sy'n poeni am danseilio eu hethos elusennol".

Cafwyd llawer o ymatebion i'r pwnc o gael llais mewn unrhyw drafodaethau sy'n digwydd ar newidiadau sy'n gysylltiedig â Brexit sy'n effeithio ar y sector, fel trefniadau cyllido, ac mae'r rhain yn cynnwys sawl agwedd wahanol:

- Sicrhau bod llais y sector yn ei gyfanrwydd yn cael ei gyfleu'n eglur i Lywodraeth Cymru.
  "Deialog ystyrlon â'r trydydd sector ar yr hyn sydd ei angen a'r ffordd orau o'i gyflawni".
  "Nid oes gan y sector y gallu i gymryd rhan mewn dadleuon, ac mae angen sicrhau bod ei lais yn cael ei glywed yn y dadleuon. Mae angen inni ddefnyddio'r ffynonellau a chymryd y safbwyntiau hynny a'u materion a'u chwyddo, fel y gallant ddylanwadu ar benderfyniadau".
- Bod yn ddewr wrth gyflwyno heriau i Lywodraeth Cymru, pan fydd angen, a all fod yn anodd os yw mudiadau'n ofni y gallai hynny olygu y byddant yn colli eu harian.
  "*Mae'n ymddangos ein bod wedi colli'r ysbryd ymgyrchu ac nad ydym mor barod i herio Llywodraeth Cymru'n agored".*
- Bod yn effeithiol wrth gyfathrebu a dangos yr hyn sydd gan y trydydd sector i'w gynnig a gwerth hynny i Lywodraeth Cymru ac eraill.

"Ffyrdd gwell o egluro beth yw canlyniadau gwasanaethau, fel y bydd pobl yn eu gwerthfawrogi'n fwy. Yn yr ymgyrch Brexit, nid oedd y trydydd sector yn dda iawn am egluro gwerth yr hyn a fyddai'n cael ei golli. Mae angen i'r trydydd sector allu cyfathrebu'n well".

- Sicrhau bod mudiadau trydydd sector yn cyfrannu'n uniongyrchol at y trafodaethau ar unrhyw gynlluniau cyllido'r dyfodol, a hefyd yn fwy cyffredinol mewn prosesau penderfynu.
  "*Ein cynnwys ni yn y broses o ddatblygu datrysiadau …a defnyddio ein gwybodaeth, ein profiad a'n harbenigedd".*
  "*rhoi'r sector yng nghanol y broses benderfynu".*
  "Mae angen i'r sector feddiannu ei safle priodol fel partner cyfartal ar lefelau penderfynu, fel BGCau".
- Bod â "*brocer gonest*" a fydd yn cyfleu negeseuon yn gywir, yn gweithredu'n ddiduedd, sy'n hygyrch, ac y gall pob parti ymddiried ynddo.

Roedd gofyniad ar Lywodraeth Cymru hefyd, o ran sut mae'n gweithio, yn ogystal â sut mae'n deall, yn gweld ac yn gwerthfawrogi'r trydydd sector. Roedd ymatebwyr yn teimlo y byddai dull mwy cydgysylltiedig ar draws y Llywodraeth yn fuddiol, gan y byddai'n golygu cysondeb yn eu perthnasoedd â swyddogion. Maent am i swyddogion fod yn fwy ymwybodol ac i ddangos mwy o ddealltwriaeth o'r anawsterau mae mudiadau trydydd sector yn eu hwynebu, yn enwedig yn y ffordd maent yn llenwi bylchau yn y ddarpariaeth wrth i Awdurdodau Lleol a gwasanaethau cyhoeddus eraill leihau eu gweithgarwch. Maent yn teimlo hefyd bod angen gwell dealltwriaeth o'r gwerth a ddaw o waith y trydydd sector, ynghyd â pharodrwydd ar ran swyddogion i gydweithredu â mudiadau trydydd sector.

"*A yw Llywodraeth Cymru'n creu amgylchedd sy'n galluogi mudiadau trydydd sector i ddod ynghyd, i gydweithredu, i ffynnu ac i weithio mewn partneriaeth â sefydliadau sector cyhoeddus?"*

Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylid darparu cymorth i feysydd penodol o wasanaethau trydydd sector, gan ddadlau dros eu gwerth neu wendid penodol yng nghyd-destun yr amgylchiadau maent yn eu gweld yn datblygu o ganlyniad i broses Brexit. Roedd y rhain yn cynnwys canolfannau/cyfleusterau/gwasanaethau cymunedol sy'n dod â phobl mewn cymuned at ei gilydd, iechyd a gofal cymdeithasol, cyngor, a gwasanaethau sy'n cael eu hanelu at grwpiau mwy agored i niwed mewn cymdeithas, e.e. LGBT, pobl o gefndir DU a Lleiafrifoedd Ethnig, pobl ag anableddau.

3 DADANSODDIAD

Yn y bennod hon, rydym yn cyflwyno'r prif negeseuon mae tîm R4C wedi eu cywain o ganfyddiadau'r ymchwil, gan gynnwys sylwebaeth ar yr hyn y gall ei olygu i'r trydydd sector a'i randdeiliaid.

Creu amgylchedd negyddol a rhaniadau mewn cymunedau
Mae mudiadau trydydd sector, yn ôl eu natur, yn gweithio i wneud pethau positif mewn cymunedau, Mae darlun cythryblus yn cael ei gyflwyno gan y rhai sydd wedi ymateb i'r ymchwil, a soniodd am elfennau negyddol, llai o oddefgarwch tuag at wahaniaethau, a rhaniadau cynyddol, sy'n cael eu priodoli ganddynt i effeithiau proses Brexit. Effaith hyn yw 'dadwneud' blynyddoedd o ddatblygu cymunedol mewn llawer o gymunedau, ac sy'n gwneud cynnydd positif yn anos. Mae proses Brexit yn dod â materion anghyfforddus i'r wyneb, sydd eisoes yn amlygu eu hunain fel anghenion ymarferol i rai mudiadau sy'n gweithio ym meysydd cydraddoldeb, hawliau dynol a chynghori, ond a all gael eu profi fwyfwy gan fudiadau eraill hefyd dros amser.

Mae cysylltiad cryf rhwng iechyd cymunedau a'r trydydd sector ac iechyd yr economi
Mae profiad blaenorol wedi dangos y cysylltiad cryf hwn, felly mae'n bwysig deall pa rai o sectorau economaidd Cymru sydd fwyaf tebygol o ddioddef mewn modd negyddol o ganlyniad i Brexit a pha ardaloedd daearyddol sydd fwyaf dibynnol ar y sectorau bregus (o bosibl) hyn. Mae hyn wedyn yn rhoi awgrym buddiol o'r mannau lle mae cymunedau fwyaf tebygol o deimlo effeithiau negyddol a lle mae'r angen am gymorth a chyfraniad mudiadau trydydd sector fwyaf tebygol o fod gryfaf. Awgrymodd ymatebwyr i'r ymchwil bod pryderon penodol am ardaloedd sydd fwyaf dibynnol ar amaethyddiaeth a gweithgynhyrchu, dau sector sydd â chynrychiolaeth anghymesur o uchel yn economi Cymru. Mae data pellach gan Lywodraeth Cymru sy'n cynnwys gwybodaeth fodelu Brexit ar draws economi Cymru'n debygol o fod ar gael i'r cyhoedd yn y dyfodol agos, a disgwylir i hyn fod yn ganllaw defnyddiol i ddeall daearyddiaeth yr effaith economaidd.

"Y storm berffaith"
Defnyddiwyd yr ymadrodd hwn nifer o weithiau gan ymatebwyr wrth iddynt ddyfalu ynglŷn â'r sefyllfa roeddent yn credu a fyddai'n datblygu o ganlyniad i broses Brexit. Nodwyd ganddynt fod dirywiad economaidd yn cael ei ragweld ac o ganlyniad i hynny maent yn disgwyl gweld mwy o alw am wasanaethau (ar sail eu profiad o adegau eraill o bwysau economaidd), ond ar yr un pryd, maent yn disgwyl y bydd llai o arian ar gael i'w helpu i ddiwallu'r galw cynyddol hwn. Maent yn pryderu y bydd y sefyllfa'n cael ei dwysau gan ddiffyg ffeithiau a gwybodaeth am y Gronfa Ffyniant Gyffredin.

Ofnau am gyllid amgen
Er nad yw cyfran sylweddol o'r trydydd sector yng Nghymru'n cael dim cyllid gan yr UE, mae pryder sylweddol yn y sector ynghylch beth all - neu na fydd - yn cymryd eu lle, faint o arian fyddai ar gael, pa bryd y byddai ar gael ac am ba gyfnodau o amser, beth fyddai ei bwyslais, pwy fyddai'n gwneud y penderfyniadau, a fyddai'n cynnig yr un cyfleoedd ar gyfer nawdd cyfatebol ac ati. Mae pryder sylfaenol y bydd y gwerthoedd positif a oedd yn cael eu hamlygu gan broses a phwyslais cyllid yr UE yn cael eu colli, ac yn benodol y bydd Cymru'n colli rheolaeth dros benderfyniadau, na fydd cyllid yn y dyfodol yn cydnabod anghenion penodol cymunedau yng Nghymru (yn enwedig natur wledig cymunedau) na nodweddion diwylliannol unigryw Cymru.

Ofnau am erydu fframweithiau deddfwriaethol
Roedd hwn yn fater a oedd ar feddwl mudiadau ymgyrchu, mudiadau sy'n darparu cyngor a rhai sy'n darparu cymorth yn ymwneud â hawliau dynol a chydraddoldeb. Y pryder ar y funud yw y bydd y safonau uchel a gyflwynwyd drwy'r UE yn cael eu gwanhau'n raddol wrth i'r DU gymryd drosodd, ond hefyd ar lefel fwy ymarferol, y bydd angen help ar fudiadau i fod yn ymwybodol o unrhyw newidiadau wrth iddynt gael eu cyflwyno ac i sicrhau eu bod yn parhau i gydymffurfio â hwy.

Bydd sylw a oedd yn arfer cael ei roi i'r trydydd sector yn awr yn cael ei gyfeirio at Brexit
Nid oedd cyfarwyddyd ein hymchwil yn ei gwneud yn bosibl i gadarnhau a oedd canfyddiad cryf bod sylw Llywodraeth Cymru a swyddogion awdurdodau lleol yn cael ei ddargyfeirio i Brexit yn wir ai peidio, ac os yw, beth yw graddfa posibl hyn. Beth bynnag, mae'n bwysig deall bod hwn yn ganfyddiad cryf, ac yn dangos sut mae mudiadau'n meddwl ac yn ymddwyn. Mae'n dangos bod angen i swyddogion y sector cyhoeddus ystyried sut mae eu galluedd a'u hadnoddau sy'n cael eu cyfeirio tuag at y trydydd sector yn cael eu heffeithio gan Brexit, a'r hyn y dylent fod yn ei gyfleu i fudiadau trydydd sector yn hyn o beth.

Dwysau'r problemau a achoswyd gan gyni
Roedd yn amlwg bod mudiadau eisoes yn teimlo effeithiau cyni, eu bod yn disgwyl iddo barhau, a bod proses Brexit yn dwysau ac yn amlygu'r problemau a achoswyd eisoes gan gyni. Fodd bynnag, mae'n debygol bod y polisïau a'r dulliau a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi amddiffyn mudiadau trydydd sector i ryw raddau rhag effeithiau cyni mewn ffordd na welwyd mewn rhannau eraill o'r DU, ac os na all hyn barhau yn y dyfodol, bydd mudiadau trydydd sector yng Nghymru yn agored i doriadau mwy eithafol na'r hyn a brofwyd hyd yma. Yr effaith gyffredinol yw bod cyni wedi gosod sylfeini anodd ar gyfer effeithiau negyddol ychwanegol disgwyliedig proses Brexit.

Mae'n amlwg weithiau bod mudiadau'n cael anhawster gwahaniaethu rhwng cyni a Brexit, ac mae'n bosibl nad oes unrhyw gysylltiad mewn gwirionedd rhwng materion a briodolir i Brexit – naill ai yn awr neu yn y dyfodol.

Dim digon o gynllunio?
Dim ond rhai mudiadau sy'n gwneud cynlluniau i ymdopi ag effeithiau negyddol disgwyliedig Brexit. Mae'n debyg bod dau brif reswm pam nad yw rhai mudiadau'n gwneud cynlluniau: nid oes ganddynt y gallu i wneud hynny, a theimlad bod y fath ystod o bosibiliadau ac nad oes ganddynt ddigon o wybodaeth – naill ai am Brexit ei hun, neu'r Gronfa Ffyniant Gyffredin – i allu gwneud cynlluniau defnyddiol.

Wrth edrych y tu hwnt i'r trydydd sector tuag at y sectorau cyhoeddus a phreifat, byddai'n ymddangos y gellid dadlau nad yw'r trydydd sector yn 'perfformio' gystal o ran gwneud cynlluniau; fodd bynnag, nid oedd pwyslais mawr yn cael ei roi ar hyn yn yr ymchwil, ac felly nid oes gennym ddata ystyrlon i allu gwneud cymariaethau teg, na hyd yn oed i dangos a oes problem arwyddocaol mewn gwirionedd o ran diffyg cynllunio, neu natur y bylchau.

Rhoi cyllid yr UE mewn persbectif
Er y byddai colli cyllid yr UE yn sioc amlwg i'r sector, rhaid cydnabod nad dyma'r gyfran fwyaf o arian sy'n dod i'r sector. Fodd bynnag, mae cyllid yr UE yn fwy arwyddocaol mewn rhai is-sectorau (e.e. llwybrau tymor hir i waith) a rhai categorïau daearyddol (e.e. cymunedau gwledig), ac mae'n ysgogiad pwysig i ddenu rhagor o arian, ac roedd ymatebwyr o sefydliadau sy'n gweithio yn y meysydd hyn yn ofni na fyddai gan gyllid amgen yr un pwyslais, a/neu byddai mwy o gystadleuaeth am unrhyw gyllid arall fyddai ar gael.

Hefyd, mae'n bwysig nodi nad oedd yn bosibl yn yr ymchwil hwn i gyfleu'r risg o golli cyllid yr UE yn fanwl, am nad oedd modd inni gael gafael yn rhwydd ar ddata ar lefel a natur y ddibyniaeth ar gyllid yr UE, e.e. faint yn union o fudiadau sy'n cael cyllid yr UE (oherwydd ni allwn gael gafael yn hawdd ar ddata am gronfeydd grant a ddyrannwyd gan sefydliadau canolraddol), nifer y mudiadau sydd â chyllid yr UE fel eu prif ffynhonnell incwm, na nifer y mudiadau y byddai eu hyfywedd ariannol yn cael ei beryglu yn sgil colli cyllid yr UE hyd yn oed os yw ddim ond yn swm cymharol fychan.

Mae data/tystiolaeth yn brin
Gwerth yr ymchwil hwn – i ryw raddau – yw egluro beth yn union yw'r bylchau mewn data a gwybodaeth. Wrth edrych ymlaen, y peth pwysicaf fydd penderfynu pa rai o'r bylchau hynny y mae angen gwirioneddol

i'w llenwi, h.y. pa wybodaeth sydd ei gwir angen ar gyfer gwneud penderfyniadau strategol a gweithredol effeithiol, ac i benderfynu ar y ffordd orau i gyfeirio'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer rhagor o ymchwil.

Er enghraifft, o ystyried yr arwyddion bod gwladolion yr UE sy'n gweithio yn y sector yn gymharol isel, nid yw'n ymddangos y byddai'n ffordd dda o wario arian na threulio amser yn ymdrechu i gael data mwy manwl am y gweithlu. Fodd bynnag, byddai'n well neilltuo adnoddau i ganfod a oes problem wirioneddol lle nad yw mudiadau llawr gwlad yn credu eu bod yn cael arian gan yr UE, ac felly heb sylweddoli eu dibyniaeth ar ffynhonnell cyllido a fydd yn dod i ben cyn hir.

Nid yw popeth yn dywyll; efallai y daw llygedyn o oleuni drwy gwmwl Brexit

Er bod yr hwyliau'n ddigon diobaith ar y cyfan, mae rhai unigolion yn gweld cyfleoedd, felly rhaid bod yn ofalus nad yw eu llais hwy'n cael ei foddi. Yr agwedd bositif fwyaf yw edrych ar yr argyfwng fel cyfle, a all gael sawl agwedd wahanol: cyfle i'r sector i feddwl yn wahanol ac i weithio'n wahanol, e.e. mwy o gydweithredu yn y sector, a gyda'r sector preifat; creu mudiadau mwy cydnerth, o ganlyniad i gael eu gorfodi i fynd i'r afael â phroblemau mewnol fel mudiad sy'n profi pwysau allanol cynyddol. Mae mudiadau'n mabwysiadu agweddau a ffyrdd o weithio sy'n fwy seiliedig ar fentergarwch, fel ffordd amgen o gynhyrchu incwm; dod o hyd i ffyrdd newydd o weinyddu cyllid, sy'n lleihau biwrocratiaeth ac sydd felly'n annog cysylltiadau ehangach.

4 ARGYMHELLION AR GYFER CYMORTH I'R TRYDYDD SECTOR

Drwy gyfuno sylwadau gan randdeiliaid ar draws y sector a phrofiad tîm R4C, mae'r adran hon yn awgrymu nifer o lwybrau gwahanol i helpu mudiadau trydydd sector a'r sector yn gyffredinol, a allai yn unigol a gyda'i gilydd helpu gyda pharatoadau ar gyfer Brexit, i gael y cydnerthedd i ymdopi â'r effeithiau negyddol a ragwelir o ganlyniad i Brexit, ac i gael awydd i fanteisio ar unrhyw gyfleoedd.

Mae'n debygol na fydd rhai o'r awgrymiadau'n peri syndod; maent yn cydnabod y problemau sy'n bodoli eisoes yn y sector, gyda rhai ohonynt wedi'u dwysau neu wedi dod yn fwy amlwg o ganlyniad i broses Brexit.

I ddibenion cyflwyno ein hawgrymiadau, rydym wedi dyfeisio chwe chategori; a dweud y gwir, mae'r ffiniau rhwng y categorïau hyn yn gallu bod yn ddigon niwlog.

Nid ydym wedi nodi unrhyw flaenoriaeth, naill ai rhwng y categorïau, nac o fewn iddynt. Rydym yn credu bod y rhain yn benderfyniadau y dylai gael eu gwneud gan WCVA a phartneriaid allweddol.

Hefyd, nid ydym wedi cynnwys dim manylion am yr awgrymiadau, gan ein bod yn credu bod nifer o ffyrdd o weithredu llawer o'r awgrymiadau hyn, ac eto, dylai'r dewisiadau ynglŷn â pha rai sydd fwyaf dymunol a phriodol fod yng ngofal WCVA a phartneriaid.

Mae rhai o'r awgrymiadau'n gysylltiedig â chymorth sydd ei angen o ganlyniad uniongyrchol i effeithiau proses Brexit (dangosir y rhain mewn llythrennau trwm, mewn llwyd); mae angen y lleill am fod Brexit wedi dwysau heriau sy'n bod eisoes (dangosir y rhain mewn llythrennau plaen).

LLAIS

- **Cael 'llais wrth y bwrdd' i fudiadau trydydd sector gyda Llywodraeth Cymru ac eraill sy'n gwneud cynlluniau ar gyfer cymorth sy'n gysylltiedig â Brexit; sicrhau bod y llais hwnnw'n mynegi anghenion y sector cyfan; yn "chwyddo" llais y mudiadau bach.**
- **Codi ymwybyddiaeth ar lefel polisi o anghenion unigryw cymunedau gwledig a'r canlyniadau i fudiadau trydydd sector, a chyflenwi gwasanaethau.**

- Ystyried canfod 'mudiadau cyswllt' rhanbarthol dwy ffordd i glywed gan ac i helpu mudiadau lleol; canfod pa welliannau/cymorth a all fod ei angen i alluogi'r mudiadau cyswllt hyn i gyflawni'r rôl hon mor effeithiol â phosibl.
- Meddwl sut y gall mudiadau ar bob lefel gael cynrychiolaeth ystyrlon mewn trafodaethau sy'n gysylltiedig â chynllunio a pharatoi ar gyfer Brexit.
- Hwyluso deialog rhwng sefydliadau cyhoeddus a thrydydd sector ar realiti eu rhyng-ddibyniaeth, a'r cyfleoedd i gydweithio yn y dyfodol.

HELPU CYMUNEDAU DRWY EFFEITHIAU PROSES BREXIT

- **Galluogi seilwaith lleol effeithiol, a fyddai yn:**
  - **Darparu'r wybodaeth am Brexit sydd ei hangen ar grwpiau cymunedol; a**
  - **Mynd ati'n rhagweithiol i ganfod bylchau mewn anghenion cymorth cymunedol sy'n deillio o Brexit a gwaith i alluogi'r bylchau hyn i gael eu llenwi.**
- **Cydnabod a lleihau effeithiau tynnu sylw swyddogion Llywodraeth Cymru oddi ar waith gyda chymunedau ac at Brexit.**

- Galluogi amgylchedd cyllido sy'n helpu i gadw cyfleusterau a gwasanaethau ar lefel llawr gwlad sy'n dod â'r gymuned at ei gilydd (rhywbeth sy'n cael ei ystyried yn arbennig o bwysig mewn sefyllfa lle mae proses Brexit yn cael ei gweld fel un sydd wedi amharu ar faterion cydlyniant) ac sy'n eu galluogi i gymryd yr awenau i ddatblygu'r gwasanaethau mwyaf priodol ar gyfer eu hanghenion.

GWYBODAETH AM BREXIT

- **Cytuno ar brotocol rhwng WCVA a Llywodraeth Cymru ynglŷn â darparu ac yna lledaenu gwybodaeth sy'n ymwneud â Brexit.**

- Sicrhau bod mudiadau'n cael gwybodaeth am Brexit mewn ffordd mor amserol â phosibl, wedi'i chyflwyno mewn ffordd sy'n eglur a chryno, a heb jargon.
- Egluro pa 'wybodaeth' am Brexit sy'n cael ei dosbarthu sy'n ffeithiol ac sy'n wirioneddol bwysig.

CYNLLUNIO A PHARATOI AR GYFER BREXIT

- **Galluogi mudiadau i greu'r gallu i feddwl am yr hyn mae angen iddynt ei wneud i baratoi ar gyfer effaith proses Brexit.**
- **Sicrhau bod mudiadau ar lefel leol yn ymwybodol a ydynt yn cael cyllid sy'n deillio o gronfeydd yr UE.**

- **Yn achos y sector yn ei gyfanrwydd, ystyried pa ddata sy'n wirioneddol angenrheidiol i ddangos effaith proses Brexit, a sut y dylid ei gasglu.**
- **Sicrhau bod Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol yn ymwybodol o allu a galluedd y trydydd sector i baratoi ar gyfer effaith proses Brexit, a bod mudiadau trydydd sector yn deall yr hyn mae Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yn ei wynebu o ganlyniad i broses Brexit.**

- Helpu mudiadau i ddeall yr agweddau niferus ar weithredu mae angen iddynt feddwl amdanynt, er mwyn ymdopi'n well ag effeithiau proses Brexit.

CYDNERTHEDD SEFYDLIADOL I DDELIO AG EFFEITHIAU BREXIT

- **Adeiladu sgiliau a galluedd staff ac ymddiriedolwyr i ddeall y ffordd orau i fynd ati i ddatblygu cydnerthedd eu mudiad i ddelio ag effeithiau Brexit, gan gynnwys:**
  - **Galluogi ac annog mudiadau i gael amser staff ac ymddiriedolwyr i ganolbwyntio ar ddatblygu cydnerthedd eu mudiad o ran Brexit**
- **Adeiladu galluogrwydd mudiadau sy'n cael arian yr UE ar hyn o bryd i greu strategaeth ymadael â chyllid yr UE.**

- Helpu mudiadau i ystyried modelau cyllido amgen a chydweithredu i wella eu cydnerthedd yn dilyn Brexit.
- Edrych ar y dystiolaeth ynglŷn â pha fath o gyllid sydd fwyaf effeithiol i alluogi cydnerthedd sefydliadol, a defnyddio'r canfyddiadau hyn mewn trafodaethau yn y dyfodol.

Y SAIL DYSTIOLAETH

- **Canfod yr wybodaeth sy'n debygol o fod yn help sylweddol i ganfod a dangos effaith proses Brexit ar y trydydd sector, gan gynnwys:**

a) **Graddfa a natur dibyniaeth ar gyllid yr UE**

b) **Barn a phrofiadau'r mudiadau trydydd sector micro a lleol iawn o Brexit.**

c) **Parhau i gynyddu'r sail dystiolaeth ynghylch effaith proses Brexit sydd wedi cychwyn gyda'r ymchwil hwn.**

5 Y GAIR OLAF

Prif ddiben yr ymchwil hwn oedd gosod y sylfeini i oleuo llunwyr polisi ynglŷn â'r hyn sydd angen ei wneud i helpu'r sector cymunedol yng Nghymru o safbwynt effaith Brexit. Y bwriad oedd y byddai'r ymchwil yn rhoi tystiolaeth a chyfeiriad, a hynny'n seiliedig ar ddarlun mor gyflawn a dibynadwy â phosibl. O fewn hyn, cafodd yr ymchwil ei ddylunio i ganolbwyntio ar dair prif thema, sef effaith - positif neu negyddol - proses Brexit ar:

1. Argaeledd gwasanaethau cymunedol (anstatudol) i bobl a chymunedau
2. Hyfywedd ariannol y mudiadau sy'n darparu'r gwasanaethau hyn
3. Gweithlu'r mudiadau hyn

Yn awr, ar ddiwedd y cyfnod ymchwilio, gallwn fyfyrio ar ganlyniadau'r astudiaeth.

Mae'n amlwg bod rhanddeiliaid yn y trydydd sector yn credu y bydd proses Brexit yn cael effaith negyddol ar **argaeledd eu gwasanaethau** i bobl a chymunedau ledled Cymru, a hynny i raddau helaeth am eu bod yn pryderu am eu gallu i barhau i ddarparu'r gwasanaethau hynny sydd ar hyn o bryd yn cael eu hariannu ag arian yr UE. Maent wedi dweud nad ydynt yn gwybod a fydd y Gronfa Ffyniant Gyffredin arfaethedig yn llenwi'r bwlch hwn, ac mae llawer yn credu y bydd mwy o gystadleuaeth am ffynonellau eraill o arian i bob mudiad trydydd sector (boed hwy'n chwilio am gyllid amgen ai peidio). Maent yn pryderu hefyd y byddant yn colli nid yn unig arian yr UE, ond hefyd yr arian ychwanegol sy'n cael ei ddenu i gyd-fynd ag arian yr UE, ac o gofio pwyslais cyllid yr UE ar y bobl fwyaf difreintiedig sy'n byw yn y rhannau tlotaf o Gymru, mae pryderon hefyd am yr hyn a ddisgrifiwyd gan rai ymatebwyr fel "storm berffaith", h.y. cynnydd posibl yn y galw am eu gwasanaethau (oherwydd effeithiau'r dirywiad disgwyliedig yn yr economi yn dilyn Brexit) ar yr un pryd â lleihad posibl yn y cyllid a fydd ar gael. Nid yw amseriad yr effeithiau hyn yn hysbys am nad oes amserlen bendant ynghlwm wrth broses Brexit, er bod y warant o gyllid yn lle cyllid yr UE hyd at 2022 wedi'i nodi fel rhywbeth sy'n rhoi rhyw gymaint o sicrwydd i'r mudiadau hynny sy'n cael cyllid yr UE ar hyn o bryd.

Wrth ystyried a fydd proses Brexit yn cael effaith neu beidio ar **hyfywedd ariannol mudiadau trydydd sector** sy'n darparu gwasanaethau cymunedol anstatudol, mae'r dystiolaeth yn brin. Ar lefel y DU, disgwylir y bydd amrywiadau gofodol yn yr effaith a hefyd rhwng gwahanol rannau o'r sector, sy'n adlewyrchu patrymau presennol cyllido'r UE, a gellir disgwyl yr un peth yng Nghymru. Er y bydd colli cyllid yr UE i'r sector yn ergyd i'r mudiadau hynny sy'n ei gael, dylid cydnabod, ar y cyfan, nad dyma gyfran fwyaf y cyllid mae'r sector yn ei dderbyn. Fodd bynnag, mewn cymunedau gwledig, ac i fudiadau sy'n darparu gwasanaethau mewn sectorau penodol e.e. llwybrau tymor hir i waith, mynegwyd ofnau efallai na fyddai gan y cyllid a fyddai'n cymryd ei le yr un ffocws, a /neu y byddai mwy o gystadleuaeth am gyllid amgen. Oherwydd eu natur mae cronfeydd strwythurol yng Nghymru yno i helpu'r cymunedau mwyaf difreintiedig, ac mae hyn yn golygu y bydd tynnu'n ôl/lleihau unrhyw gyllid yn cael effaith anghymesur ar y cymunedau hyn. Mae 80% o gyllid yr UE i Gymru yn mynd i ardal pymtheg o Awdurdodau Lleol yn rhanbarth gyllido Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yr UE, gyda'r gweddill yn mynd i ardal y 7 Awdurdod Lleol arall.

O ran **yr effaith bosibl ar weithlu'r trydydd sector**, nid oes data ar gael sy'n dangos faint yn union o wladolion yr UE sy'n gweithio naill ai mewn rolau cyflogedig neu fel gwirfoddolwyr yn y trydydd sector yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r arwyddion o'r data sydd ar gael ac o'n hymchwil ni'n awgrymu bod y niferoedd yn isel iawn ac felly bychan iawn fydd yr effaith yn hyn o beth. Mynegwyd rhai pryderon ynglŷn ag effeithiau anuniongyrchol, yn enwedig yn y maes gofal cymdeithasol, sef y gallai'r pwysau presennol ar recriwtio gynyddu os bydd problemau cyllido disgwyliedig y trydydd sector yn ei wneud yn llai deniadol fel cyflogwyr nag opsiynau eraill yn y sectorau cyhoeddus neu breifat.

Fel yr oeddem wedi'i ddisgwyl, roedd y dystiolaeth a oedd ar gael o fewn cyfyngiadau amser ac adnoddau'r ymchwil hwn yn dameidiog ar adegau, ond er hynny rydym yn credu ei fod yn ddigon i roi cyfeiriad cadarn i lywio prosesau penderfynu. Daeth themâu clir i'r amlwg drwy ein hymchwil sylfaenol, ac roedd y canfyddiadau hyn yn adlewyrchu cynnwys y dogfennau a astudiwyd drwy ein hadolygiad llenyddiaeth. Rhoddodd yr adolygiad o ddata meintiol lai o wybodaeth nag y byddem wedi'i ddymuno, ond mae'n rhoi rhyw syniad inni. Roedd rhai cyfyngiadau yn y broses casglu gwybodaeth, fel yr anhawster wrth geisio gwahaniaethu rhwng canfyddiadau ymatebwyr o effaith proses Brexit ac effaith y cyni sydd gyda ni o hyd, diffyg rhai setiau data a allai fod yn rhai pwysig, yr ymestyn ar draws y trydydd sector a oedd yn bosibl o fewn cyfyngiadau amser ac adnoddau'r ymchwil hwn. Fodd bynnag, er gwaethaf y cyfyngiadau, rydym yn credu bod gan yr ymchwil werth gwirioneddol. Am y tro cyntaf, mae'n cyfleu darlun o effaith bresennol ac effaith bosibl Brexit ar ddyfodol y mudiadau yn y trydydd sector yng Nghymru sy'n darparu gwasanaethau anstatudol, gyda'r nod o wneud gwahaniaeth positif o ran grymuso, cydlyniad, cydnerthedd a ffyniant cymunedau.

Gallai gwaith pellach roi gwell syniad o ba ardaloedd daearyddol, a all fod yn is-ardaloedd o fewn ardaloedd sy'n cael cyllid yr UE, a pha feysydd gwaith e.e. mai helpu pobl ag anghenion ychwanegol o ganlyniad i salwch neu anabledd i waith yw'r rhai y dylid eu targedu gydag adnoddau prin. Gallai hefyd ddatgelu'r ffordd orau o dargedu'r adnoddau hynny, gan leddfu rhai o'r effeithiau disgwyliedig. Mae hyn yn arbennig o bwysig o gofio'r effeithiau difrifol a ddisgwylir mewn rhai ardaloedd, a gyda rhai grwpiau o gleientiaid.

Mae'r adroddiad yn dangos lle mae'r bylchau mewn tystiolaeth, gan ei gwneud yn bosibl i'r sector i benderfynu pa rai o'r bylchau hyn sy'n ddigon pwysig i haeddu gwneud cais ac i ddyrannu adnoddau ar eu cyfer.

Hefyd, gan edrych i'r dyfodol, mae'r gwaith yn galluogi WCVA, ei bartneriaid a'i gefnogwyr i benderfynu ar flaenoriaethau eu gweithredoedd, o ran y ffordd orau i helpu'r trydydd sector i ymdopi ag effeithiau negyddol disgwyliedig proses Brexit, a hefyd i alluogi ac annog mudiadau i weld cyfleoedd ac i symud ymlaen mewn ffordd bositif; gan feddwl, cynllunio a gweithio mewn ffyrdd newydd er budd pobl a chymunedau ledled Cymru.

6 ATODIADAU

6.1 Y RHAI A GYFRANNODD AT YR YMCHWIL

Diddymu Cynulliad Cymru
Age Connect De Ddwyrain Cymru
Age Cymru
Fforwm Pobl ag Anableddau Cymru Gyfan
Antur Nantlle
Antur Teifi
Architectural Heritage Fund
Barod
Barry RAF Association
CGS Pen-y-bont ar Ogwr
Ymddiriedolaeth yr Afu/Iau Prydain
Building Communities Trust
CAIS
Gwasanaethau Trais Domestig Calan
Cymdeithas Tai Cymunedol Caerdydd
Ymddiriedolaeth y Gofalwyr
Gyrfa Cymru
Cyngor ar Bopeth Sir Gaerfyrddin
Cyngor Sir Caerfyrddin - Brexit
Carys Mair Thomas
CGS Ceredigion
Plant yng Nghymru
Chwarae Teg
Cyngor ar Bopeth Cymru
Cyngor ar Bopeth Castell-nedd Port Talbot
Cyngor ar Bopeth Abertawe Castell-nedd Port Talbot
Cymdeithas Tai Clwyd Alyn
Cartrefi Cymunedol Cymru
Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru

Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol
Cymru yn erbyn Arthritis
Deafblind UK
Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru
Dewis
Anabledd Cymru
Gweithdy DOVE
Blynyddoedd Cynnar Cymru
Eco Vision Penarth
Eco-Synergy
Eden Project
Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid Cymru
Expanding Horizons
Ffrind i Mi
Futureworks
Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg
Canolfan Hyfforddi Glyn-nedd
Gofal
Groundwork Gogledd Cymru
Cyngor Gwynedd - Brexit
Innovate Trust
Interplay (Chwarae a Hamdden Integredig)
Cyngor Ynys Môn - Brexit
Leonard Cheshire
Elusen Letitia Cornwallis
Lloyds Foundation for England and Wales
Canolfannau Cofnodion Amgylcheddol Lleol
Medrwn Môn
Ymddiriedaeth Gymunedol Melin
Canolfan Gynadledda Melincryddan
Menter Iaith Casnewydd
Menter Iaith Cymru
Menter Môn

CGS Merthyr
Môn CF
Cyngor ar Bopeth Sir Fynwy
Mudiad Meithrin
Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol (2)
CGS Castell-nedd Port Talbot

Neuadd y Pentref
Newlink Cymru
Mind Casnewydd
NICVA
Swyddfa Comisiynydd Heddlu Gogledd Cymru
Rhwydwaith Cydraddoldeb Rhanbarthol Gogledd Cymru
Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru
NPTCVS
NWAMI
Ovarian Cancer Action
PACTO (Cymdeithas Mudiadau Cludiant Cymunedol Sir Benfro)

Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro
Cyngor Sir Penfro - Brexit
Pobl Sir Benfro yn Gyntaf
Uned Pobl a Gwaith
PLANED
Plantlife Cymru
Pobl Group
PONT
Promo Cymru
Quilt Association
Race Council Cymru
Y Cerddwyr
Recovery Cymru
Revise Consultancy
Shelter
Partneriaeth Gymunedol De Sir Ddinbych
Street Games
Swansea Autism Movement CiC
Prifysgol Abertawe
Tai Pawb
Tempo Time Credits
TGP Cymru
The 3 million
Byddin yr Iachawdwriaeth - Employment Plus
Thrive Women's Aid
CGS Torfaen
Yr Urdd
Vale 50+ Strategy Forum
Canolfan Cydweithredol Cymru
Cyswllt Amgylchedd Cymru
Wastesavers
WCVA - SMT, tîm Ewropeaidd
WEFO
Fforwm Cymdeithas Sifil Cymru ar Brexit
Llywodraeth Cymru – Cydraddoldeb
Llywodraeth Cymru – Cynhwysiant a Chyngor Ariannol Advice
Llywodraeth Cymru – Mewnfudo
Llywodraeth Cymru - Trydydd Sector
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Conffederasiwn GIG Cymru
Elfennau Gwyllt
Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt Cymru
CGS Wrecsam
YMCA Caerdydd
Ynys Mon CF